Chwilio am

# Undod Cristnogol

Fersiwn boblogaidd o'r
*Cyfarwyddiadur Cymhwyso Egwyddorion a Normau Eciwmeniaeth*

Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr

© 2002 Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr

www.catholic-ew.org.uk

Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2002 gan y Gwasanaeth
Cyfathrebu Catholig, 39, Eccleston Square, Llundain SW1V 1BX.
ccs@cbcew.org.uk

Argraffwyd gan Wellington Press Ltd, Sutton, Surrey

ISBN 0 905241 27 4

# Cynnwys

Cyflwyniad yr Esgob Mullins 4

Rhagair y Cardinal 6

Rhagair
7

Rhagymadrodd 9

I. Chwilio am undod Cristnogol
10

II. Trefniadaeth o fewn yr Eglwys Gatholig at wasanaeth undod
18

III. Ffurfiant eciwmenaidd yn yr Eglwys Gatholig 26

IV. Cymundeb mewn bywyd a gweithgarwch ysbrydol ymysg y bedyddiedig
41

V. Cydweithrediad eciwmenaidd – dialog – tystiolaeth ar y cyd
59

Darllen pellach 71

# Cyflwyniad

Braint yw cyflwyno'r Cyfarwyddiadur Eciwmeniaeth i bobl Cymru. I ni'r Catholigion y paratowyd y llyfryn hwn, a hynny yn y gobaith, y disgwyliad, y byddwn yn ymuno â'n cyd-Gristnogion o bob cefndir yng ngwaith yr Arglwydd.

Gweddi'r Iesu yn y Swper Olaf oedd i'w Dad gysegru'r apostolion yn y gwirionedd. 'Dy air di yw'r gwirionedd' (Ioan 17, 17). A gweddïodd hefyd dros bawb a fyddai'n credu ynddo Ef trwy eu gair hwy, 'ar iddynt oll fod yn un, fel yr wyt ti Dad ynof fi a minnau ynot ti, iddynt hwy hefyd fod ynom ni, er mwyn i'r byd gredu mai tydi a'm hanfonodd i' (ibid 20-21).

'Dy air di yw'r gwirionedd'. Yn Efengyl Ioan mae sôn am y gair yn dwyn atgof am eiriau agoriadol yr Efengyl 'Yn y dechreuad yr oedd y Gair…' Mae ein ffyddlondeb i Grist yn galw arnom, wedi galw erioed ar Gristnogion i fod yn eiddigeddus iawn dros undod Ei holl ddisgyblion, dros burdeb y gwirionedd a ddaeth i'r byd trwyddo Ef.

Yn sgîl dau ryfel byd, y rhyfeloedd mwyaf dinistriol a chreulon yn holl hanes y ddynoliaeth, galwyd Cyngor Cyffredinol yn neuaddau'r Fatican yn Rhufain. Wrth iddi wahodd cynrychiolwyr o bob corff Cristnogol, yr oedd yr Eglwys Gatholig yn datgan y bwriad a'r gobaith a oedd yn sail i holl drafodaethau'r Cyngor. Yr oedd dydd yr ymraniadau chwerw wedi darfod amdanynt. Rhaid derbyn bod pawb sy'n hawlio enw Crist yn ddiffuant eu credo ac yn dduwiol eu bucheddau. Wrth i'r Cyngor gyhoeddi bod cyflawnder y Datguddiad

Cristnogol yn bodoli yn yr Eglwys Gatholig, yr oedd hi'n datgan bod rhuddin y Ffydd i'w gael ymhob cymuned o ddisgyblion sydd yn cydnabod Iesu yn Waredwr iddynt ac yn Geidwad. Brodyr a chwiorydd yng Nghrist yw pobun sydd wedi derbyn sagrafen bedydd. Yn ein credoau sylfaenol, mae mwy sydd yn gyffredin rhyngom nag sydd yn ein gwahanu. Rhaid darganfod ffyrdd i fynegi'r ffaith honno a'i gwneud hi'n amlwg ym mywyd yr eglwysi. Dyletswydd pawb, yn unigolion ac yn gymunedau, yn enwadau ac yn eglwysi, ydyw ymegnïo i ddileu'r rhwygiadau, i gladdu chwerwder y gorffennol sydd yn gymaint o faen tramgwydd i fyd di-Dduw.


Dyletswydd Gatholig yw bod yn Eciwmenaidd. Dyletswydd pob cymuned a phob plwyf Catholig yw chwilio am ran flaenllaw ymhob peth a fydd yn dod â ni yn agos at ein cymdogion Cristnogol – dod yn agos nes i ni dyfu'n un corff yng Nghrist. Paratowyd y Cyfarwyddiadur hwn i'n sbarduno ni a'n cynorthwyo i ymgymryd â'r ddyletswydd hon. Y gobaith yw y bydd pob plwyf yn cael nifer o gopïau ac yn eu defnyddio nes i bobun ohonom ddyheu yn ei galon am yr undeb hwnnw rhwng Ei ddisgyblion sydd yn unol â gweddi Crist drosom, y byddwn yn cydweithio ag eraill i gyrraedd y nod y gweddïodd Crist mor daer drosto.

Daniel J Mullins
Esgob Emeritus

# Rhagair y Cardinal

Rwyf i yn awyddus i gymeradwyo â’m holl galon y fersiwn poblogaidd hwn o’r Cyfarwyddiadur Eciwmeniaeth. Mae llwybr eciwmeniaeth, fel yr wyf wedi’i ddweud eisoes, yn ‘ffordd nad oes ffordd allan ohoni’.

Fy ngobaith diffuant i yw y bydd astudio’r ddogfen hon yn rhoi hwb newydd i weithgarwch eciwmenaidd mewn esgobaethau a phlwyfi. Fel y dywedodd y Pab yn ddiweddar, fe all y daith weithiau ymddangos yn un hir, ond mae ‘Yr ymbil “ut unum sint" yn…reidrwydd gorfodol, yn nerth sy’n ein cynnal…Ar weddi Iesu…y seiliwn ein gobaith y byddwn yn llwyddo i gyrraedd cymundeb llawn a gweladwy gyda phob Cristion hyd yn oed o fewn rhychwant hanes’ (Novo Millennio Ineunte,



n. 48).

Cardinal Cormac Murphy-O’Connor
Archesgob Westminster
Llywydd, Cynhadledd Esgobion Cymru a Lloegr

# Rhagair


Fersiwn byrrach yw hwn o'r Cyfarwyddiadur Cymhwyso Egwyddorion a Normau Eciwmeniaeth a gyhoeddwyd gan y Cyngor Pontificaidd dros Hyrwyddo Undod Cristnogol yn 1993. Mae Cyfarwyddiadur 1993 yn llawer llawnach na'r fersiynau gyhoeddwyd yn 1967 a 1970. Fe geir yma nid yn unig ddysgeidiaeth Cyngor Fatican II ar eciwmeniaeth (yn arbennig yn y Datganiad Unitatis Redintegratio), ond hefyd fe gasglwyd ynghyd y dysgeidiaethau, deddfau a chyfarwyddiadau a gyflwynwyd ers hynny gan y Pabau yn eu tro, y Sedd Sanctaidd a Chôd Cyfraith Canonaidd. Mae'r fersiwn byrrach yma yn canolbwyntio'n bennaf ar y rhannau hynny o Gyfarwyddiadur 1993 y mae'r golygyddion yn meddwl y byddant yn berthnasol i drwch y clerigwyr a lleygwyr, ac yn ceisio cyflwyno'r deunydd mewn modd sy'n gywir ac yn hawdd cael gafael arno. Wrth baratoi'r testun fe ymgynghorwyd hefyd gyda'n partneriaid eciwmenaidd.

Cyhoeddir y fersiwn talfyredig hwn dan awdurdod Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr. Er hynny, rhaid pwysleisio mai dim ond y Cyfarwyddiadur yw'r testun swyddogol ac awdurdodedig. Cymeradwywyd hwnnw gan y Pab Ioan Paul II ar Fawrth 25, 1993, a'i lofnodi gan Cardinal Cassidy, oedd bryd hynny yn Llywydd y Cyngor Pontificaidd dros Hyrwyddo Undod Cristnogol, a chan yr Esgob Duprey, yr Ysgrifennydd.

Sylfaenwyd y testun isod yn llwyr ar y Cyfarwyddiadur ei hun, ond mewn ambell le ceir


esboniad byr gan y golygydd. Argreffir y rhain rhwng cromfachau sgwâr, fel hyn: [h.y. traddodiadau heblaw y rhai Uniongred Dwyreiniol.]

Defnyddir y termau ‘Eglwysi a Chymunedau Eglwysig’ yn aml yn y Cyfarwyddiadur. Ystyr ‘Cymunedau Eglwysig’ yw cymunedau y mae’r Eglwys Gatholig yn eu hystyried fel rhai sydd â chanddynt rai, ond nid y cyfan, o’r elfennau hynny sy’n angenrheidiol i Eglwys Crist. Naill ai yn ôl eu dymuniad neu yn ôl arfer y Fatican, ni elwir mohonynt yn ‘Eglwysi’. Yn y fersiwn byrrach yma defnyddir ‘Eglwysi a Chymunedau’, neu yn fwy cryno fyth, ‘traddodiadau’.




## *Sut i ddefnyddio’r cyfarwyddiadur yma*

Mae’r fersiwn talfyredig hwn yn cynnig testun symlach. Mae’r rhifau ar ben pob paragraff yn cyfeirio at yr adrannau yn y ddogfen wreiddiol.



Ar ôl pob prif bwnc mae yna gwestiwn neu gyfres ohonynt. Gellir eu defnyddio ar gyfer astudiaeth breifat neu, well fyth, fel sail i drafodaeth mewn grŵp bychan. Nodir y cwestiynau hyn gyda marc cwestiwn.



Mewn mannau allweddol fe geir awgrymiadau am ‘weithgarwch pellach’ a nodir gyda saeth.

Ar ddiwedd pob pennod fe geir rhestr o ‘eiriau a syniadau allweddol’. Mae’r rhain yn cynnig golwg ehangach ar y prif themâu a drafodwyd. Ac fe’u dilynnir gan rai awgrymiadau ar gyfer gweithredu neu holi. Fe’u nodir gyda marc ebychiad.

# Rhagymadrodd

Mae'r Eglwys Gatholig wedi cael tipyn o brofiad eciwmenaidd dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf. Mae hyn, ynghyd â'r angen i Gatholigion chwarae fwy o ran mewn eciwmeniaeth, yn golygu fod rhaid wrth addysgu cywir a disgyblaeth sy'n cael ei ddiweddaru'n gyson. Dyna nod y Cyfarwyddiadur. (1-3)

Anelir hwn yn bennaf ac yn y lle cyntaf i'r esgobion sydd, gyda'r Pab, yn gyfrifol am bolisi eciwmenaidd, ond mae hefyd o bwys i Gatholigion yn gyffredinol, sy'n cael eu galw i weddïo a gweithio dros undod Cristnogol. (4)

Dylai fod o werth, yn ogystal, i'n brodyr a chwiorydd yn yr Eglwysi Cristnogol eraill a'r Cymunedau, i'w galluogi i ddeall ein hagweddau eciwmenaidd yn well. (5)

Mae yma bum pennod:

I. Mae Chwilio am Undod Cristnogol yn dangos ymrwymiad eciwmenaidd yr Eglwys Gatholig yn eglur iawn.

II. Trefniadau yn yr Eglwys Gatholig at wasanaeth undod Cristnogol sydd yn ymwneud â sut strwythur y mae'r Eglwys wedi'i sefydlu ar gyfer chwilio am undod.

III. Yn Ffurfiant Eciwmenaidd yn yr Eglwys Gatholig, ceir ymdriniaeth â'r mater hollbwysig o ddysgu am eciwmeniaeth a ffurfio agwedd eciwmenaidd.

IV. Cymundeb mewn bywyd a gweithgarwch ysbrydol ymysg y bedyddiedig yw teitl y bennod ar y ffyrdd priodol o gydrannu mewn gweddi ac mewn

# I. Chwilio am undod Cristnogol

*Pennod sy'n edrych ar y rhesymau dros weithio dros Undod Cristnogol*

*ffydd, gobaith a chariad*

Ymateb yw eciwmeniaeth i ras Duw. Mae'n ein galw ni i gyd i ffydd yn y math o Eglwys y mae Duw ei eisiau, i obaith y caiff gweddi Crist: 'fel y byddont oll yn un', ei hateb yn gyflawn rhyw ddydd, ac i gariad, sef rhodd yr Ysbryd sy'n uno pawb sy'n credu.

Gofynnwyd yn eglur i Gatholigion gan Ail Gyngor y Fatican i estyn allan mewn cariad at bob Cristion arall mewn ysbryd o wirionedd sy'n mynnu ac yn gweithredu i oresgyn unrhyw bethau sydd yn eu gwahanu. (9)

Mae'r bennod hon yn cyflwyno dysgeidiaeth yr Eglwys Gatholig ar eciwmeniaeth fel y'i datblygwyd yn Fatican II yn y 1960au ac wedyn. Dyma sylfaen athrawiaethol yr holl Gyfarwyddiadur. (10)

## *Y Sylfaen*

*gyda'n gilydd*

Yr Eglwys a'i hundod yng nghynllun Duw

Mae Duw yn tynnu pob creadur dynol, a'r greadigaeth i gyd, i fewn i undod gydag Ef. I gyflawni hyn, mae'r Crist croeshoeliedig ac atgyfodedig yn galw bodau dynol i fod yn rhan o Bobl newydd Duw, yr Eglwys. Mae hon yn cwmpasu amrywiaeth enfawr o ddynion a merched. Er mwyn sefydlu'r Bobl hyn, galwodd Crist ddeuddeg Apostol, gyda Phedr yn ben arnynt, a rhoi iddynt y dasg

o bregethu'r Efengyl, dathlu'r sagrafennau, ac arwain Pobl Dduw mewn cariad. Mae'r Eglwys yn parhau i gael ei gwasanaethu gan weinidogaeth ordeiniedig o esgobion, offeiriaid a diaconiaid. Yr hyn sy'n cadw'r Eglwys ynghyd yw rhwymau ffydd a sagrafen, a gweinidogaeth sy'n hierarchaidd. (11/12)

Mewn undod fel hyn, mae Pobl Dduw yn ffurfio cymundeb; – koinonia mewn Groeg, sef 'cymdeithas'. Bu gan y cysyniad o gymundeb ddylanwad grymus ar y ddysgeidiaeth swyddogol am natur yr Eglwys ers Fatican II. (11/12)

*mewn cymundeb gyda Duw a'n gilydd*

Yr Eglwys fel cymundeb

Yn sylfaenol, y gymdeithas yna gyda Duw – gyda'r Tad trwy Grist yn yr Ysbryd Glân, dyna yw'r cymundeb. Mae'n cyrraedd ei anterth yn y nef, ond mae'n bresennol yma ar y ddaear hefyd. Pan fo Cristnogion wedi'u huno mewn ffydd, gobaith a chariad, mewn dysgeidiaeth a sagrafennau sy'n gyffredin, a than arweiniad eu bugeiliaid, maen nhw'n rhan o'r cymundeb hwn. Mae pob esgobaeth leol, o amgylch ei hesgob, yn creu 'yn y lle hwn', y gymuned unigol ac Eglwys Crist. (13)

*cymundeb... rhwg esgobaethau*

Mae'r cymundeb hwn rhwng esgobaethau yn ogystal â bod o'u mewn. Cynhelir y cymundeb byd-eang hwn yn arbennig trwy'r cymundeb rhwng yr esgobion a rhyngddyn nhw ag Esgob Rhufain, olynydd Pedr. (14)

*cymundeb... i genhadu*

Mae gan bob esgobaeth genhadaeth oddi wrth Grist i fynd â newyddion da y Deyrnas i fwy a mwy o bobl, gan gynnig iddynt y cymundeb hwn gyda Duw a chyda phawb sydd eisoes yn cyfrannu ohono. Wrth i bob esgobaeth gyflawni'r genhadaeth hon, atebir gweddi

*cymundeb.... mewn amrywiaeth*

Iesu: 'Rwy'n gweddïo ar iddynt oll fod yn un, ie, fel yr wyt ti, O Dad, ynof fi a minnau ynot ti, iddynt hwy hefyd fod ynom ni, er mwyn i'r byd gredu mai ti a'm hanfonodd i.' (Ioan 17:21). (15)

Yn ogystal, mae'r undod-mewn-cymundeb yn cynnwys amrywiaeth cyfoethog o bobloedd a diwylliannau, ar draws y byd a'r canrifoedd: mae Eglwys Crist yn wir yn 'gatholig'. Mae'r union gyfoeth yna yn creu tyndra ar brydiau – ond, er gwaethaf hynny, mae Ysbryd Duw wrthi'n gweithio'n ddi-baid yn galw Cristnogion, yn eu holl amrywiaeth, i undod dyfnach a dyfnach. (16)

Mae'n ddysgeidiaeth Gatholig fod yr un Eglwys Crist yma yn 'bodoli' yn yr Eglwys Gatholig. Ystyr hyn yw fod yr holl wirionedd a gafodd ei ddatguddio, yr holl sagrafennau a gweinidogaeth i'w canfod ynddi, er i ni, Gatholigion, fethu gwneud defnydd llawn o'r rhoddion hyn gan Grist. Rhaid cadw'r ddysgeidiaeth Gatholig hon mewn cof pan fyddwn yn cyfeirio at gymunedau Cristnogol eraill fel 'Eglwysi a Chymunedau eraill', ac ati. (17)



~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~

1. 'Mae'r Eglwys Gatholig yn cofleidio gyda gobaith yr ymrwymiad i eciwmeniaeth fel dyletswydd ar ran y gydwybod Gristnogol, wedi'i oleuo gan ffydd a'i arwain gan gariad.' (Pab Ioan Paul II, *Ut Unum Sint*, 8). Beth mae'n golygu i gymryd ein dyletswydd i ymrwymo i eciwmeniaeth o ddifrif?

2. Sut allwch chi gyflawni cenhadaeth yr Eglwys yn eich plwyf? Sut allech chi wella ar hyn drwy gydweithredu gyda Christnogion eraill? (gweler para 15)

3. Mae para 16 yn awgrymu fod undod yn golygu amrywiaeth. Sut allwn ni gael undod heb unffurfiaeth?

*cymundeb rhannol - sut mae eraill yn ein gweld ni*

4. Pam ydych chi'n Gatholig ac nid yn aelod o draddodiad arall? Beth sy'n arbenigol a gwerthfawr am yr Eglwys Gatholig yn eich golwg chi?

## *Ble rydyn ni'n sefyll ar hyn o bryd*

Rhaniadau ymysg Cristnogion ac ailsefydlu undod

*y mudiad eciwmenaidd*

Ers y cychwyn cyntaf, tarfwyd ar undod yr Eglwys gan ffolineb a phechod, ac fe gafwyd rhwygiadau yn gynnar. Ond cafwyd rhaniadau llawer gwaeth ymhen amser. Ymrannodd Eglwysi'r dwyrain ac Eglwys y gorllewin, ac wedyn, yn y gorllewin ymddangosodd rhaniadau gwaeth ynglŷn â disgyblaeth, athrawiaeth a natur yr Eglwys. Er hynny, er i'r cymundeb rhyngom gael ei niweidio, ni ddinistriwyd mohono'n llwyr. Parhaodd cyflawnder yr undod sy'n perthyn i Eglwys Crist yn yr Eglwys Gatholig drwy'r oesoedd, roedd Eglwysi a Chymunedau eraill yn para mewn cymundeb rhannol gyda ni, ac, fel y dywedir yn y Datganiad ar Eciwmeniaeth, Unitatis Redintegratio (UR), 'Nid yw Ysbryd Crist wedi peidio â'u defnyddio fel moddion iachawdwriaeth' (UR3). (18)

*diffinio undod*

Yr un pryd, ni ddylai Cristnogion fyth fodloni gyda'r mathau llai hyn o gymundeb. Dydyn nhw ddim yn cydymffurfio gydag ewyllys Duw, ac maen nhw'n gwanhau gallu'r Eglwys i gyflawni ei chenhadaeth. Yn yr ugeinfed ganrif yn arbennig, llwyddodd gras i gymell pobl mewn nifer o draddodiadau i ymdrechu i oresgyn y rhaniadau hyn drwy weddi, edifeirwch a chydgyfarfod. Dyna ystyr y 'Mudiad Eciwmenaidd'.

(19)

Yng nghyngor Fatican II, ymrwymodd yr Eglwys Gatholig i weithio dros undod Cristnogol. Diffiniwyd yr undod hwn fel 'cyffes o un ffydd … dathliad o addoliad dwyfol ar y cyd … cytgord teuluol ymysg teulu Duw.' (UR2) Mae'r math hwn o undod, o'i hanfod, yn gofyn am gymundeb gweledol yr holl Gristnogion – yn ôl dysgeidiaeth Gatholig, dyma nod terfynol y mudiad eciwmenaidd. Ond nid yw hyn yn golygu fod rhaid aberthu'r amrywiaeth eang sydd wedi tyfu ymysg Cristnogion, cyhyd â bod yr amrywiaeth hwn yn ffyddlon i'r traddodiad apostolaidd. (20)

*gweithio dros undod*

~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~

Beth ydych chi'n feddwl o'r diffiniad o undod ym mharagraff 20?

~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~

## *Beth allwn ni wneud?*

Eciwmeniaeth ym mywyd Cristnogion

Mae pob un sydd wedi'i fedyddio yn enw Crist, drwy hynny ynddo'i hun, wedi'i alw i ymrwymo i chwilio am undod; mae byw ein bedydd yn golygu cymryd ein rhan yng nghenhadaeth Crist o wneud popeth yn un. (22) Felly, mae Catholigion wedi'u gwahodd i gydweithredu yn hyn:

*peryglon a phosibiliadau*

'Lle nad oes gweithgarwch eciwmenaidd, neu os nad yw'n effeithiol, fe fydd Catholigion yn ceisio ei hyrwyddo. Pan fo agweddau sectyddol yn ei rwystro neu'i lesteirio a gweithgareddau o'r fath yn arwain at

hyd yn oed fwy o raniadau…fe ddylent fod yn amyneddgar a dyfalbarhau’. (23)

*newid calon*

Mae yna ddau berygl gwrthgyferbyniol yma:
•difrawder (anwybyddu gwahaniaethau pwysig)
•proselytiaeth (perswâd gorfodol)

Pan fo Catholigion mewn cysylltiad eciwmenaidd gyda Christnogion eraill rhaid iddyn nhw:

•weithredu’n onest, yn ddoeth a chyda gwybodaeth am y dadleuon;
•adnabod eu Heglwys nhw’u hunain – ei disgyblaethau a’i hegwyddorion eciwmenaidd;
•fod â gwybodaeth gywir am y traddodiad Cristnogol y maen nhw’n ymwneud ag ef. (23/24)

Mae eciwmeniaeth yn mynd at galon ysbrydolrwydd Cristnogol. Mae’n galw am ‘newid calon a bywyd sanctaidd, ynghyd â gweddïo preifat a chyhoeddus dros undod Cristnogion’ (UR8). Wedi’r cwbl, mae’n rhaid i’r rhai sy’n uniaethu’u hunain gyda Christ uniaethu gyda’i weddi, yn enwedig ei weddi dros undod; fe fydd y rhai sy’n byw bywyd edifeiriol yn hydeiml eu hymateb i ddrygioni ein rhaniadau ac yn gweddïo am dröedigaeth; fe fydd y rhai sy’n ceisio sancteiddrwydd yn gallu ei adnabod hefyd tu allan i ffiniau gweledol yr Eglwys Gatholig. (25)

## Gwahanol lefelau gweithgarwch eciwmenaidd

Mae i bob lefel yn yr Eglwys – y plwyf, yr esgobaeth, y genedl a’r byd yn grwn – ei ffurfiau a disgyblaethau priodol ar gyfer gweithgarwch eciwmenaidd.

Ar lefel y plwyf, er enghraifft, gall poen y teuluoedd

hynny lle mae rhai aelodau'n perthyn i wahanol draddodiadau ac yn methu derbyn y Cymun Bendigaid gyda'i gilydd fod yn sbardun at weddi ac ymdrechion eciwmenaidd.

Yn genedlaethol, dylai aelodau Cynhadledd yr Esgobion weithio gyda'i gilydd i ddatblygu perthnasau eciwmenaidd effeithiol gyda thraddodiadau Cristnogol eraill yn eu rhanbarthau nhw. Wedi'r cwbl, maen nhw'n rhannu'r un diwylliant.

*yr esgob*

Yn fyd-eang, dyletswydd Coleg yr Esgobion ynghyd â'r Pab yw penderfynu ynglŷn ag adfer cymundeb llawn gydag Eglwysi eraill, ac arwain gweithgareddau eciwmenaidd trwy'r byd i gyd. (26/29)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~1. Beth ddysgoch chi o'r adran hon?

*yr eglwys gyfan*

2. Sut allwn ni atal eciwmeniaeth rhag mynd yn ymchwil am y cyfenwadur lleiaf?

3. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng annog pobl i ymuno â'r Eglwys a phroselytio?

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Cymhlethdod ac amrywiaeth y sefyllfa eciwmenaidd

Fe all sefyllfaoedd eciwmenaidd amrywio'n eithafol, ac weithiau mewn ffyrdd go annisgwyl, fel bod angen swyddogaeth apostolaidd esgob er mwyn cefnogi'r digalon a ffrwyno'r annoeth, a sicrhau bod ein bywyd eciwmenaidd yn cael ei redeg yn ôl egwyddorion

Catholig.

Pan fyddwn ni Gatholigion yn y mwyafrif, mae'n amlwg y bydd y sefyllfa eciwmenaidd yn gwahaniaethu oddi wrth yr un pan fyddwn ni yn y lleiafrif ymysg Cristnogion eraill. Fe fydd yn wahanol eto pan fo mwyafrif y boblogaeth yn perthyn i ffydd wahanol i Gristnogaeth. Er hynny, hyd yn oed pan fo Catholigion yn y mwyafrif, mae'n angenrheidiol inni weithredu'n eciwmenaidd: rhaid i'r mudiad eciwmenaidd anwesu'r Eglwys gyfan. (30/32)

Sectau a mudiadau crefyddol newydd
Mae'r rhain yn ffenomenon byd-eang heddiw, ac yn un cymhleth ac yn amrywio'n helaeth o le i le. Yn aml, does gan y grwpiau crefyddol hyn fawr neu ddim diddordeb mewn hybu perthynas dda gyda'r Eglwys Gatholig. Rhaid i'r esgob lleol benderfynu y polisi tuag at y rhai sydd yn ei esgobaeth. Ar gyfer ein perthynas gyda'r Eglwysi a Chymunedau sydd â pherthynas eciwmenaidd gyda ni y mae'r egwyddorion ar gyfer cydweithredu a geir yn y Cyfarwyddiadur. (35/36)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Cymundeb/*koinonia*
Undeb nid unffurfiaeth
Bodoli o fewn
Newid calon/tröedigaeth
Eciwmeniaeth ar bob lefel

Gwnewch arolwg o berthnasau eciwmenaidd
yn eich plwyf ac yn lleol

Cymrwch bob gair yn ei dro a gofyn ichi'ch
hunan am eciwmeniaeth yn eich ardal chi
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

# II. Trefniadaeth o fewn yr Eglwys Gatholig at wasanaeth Undod Cristnogol

*Mae'r bennod hon yn edrych ar bwy sy'n gwneud beth*

*gall ein hamgylchiadau helpu*

Mewn gwahanol fannau ar draws y byd fe geir esgobaethau Catholig yn bodoli ochr yn ochr gydag Eglwysi a Chymunedau Cristnogol eraill ac yn rhannu gyda nhw ysbrydolrwydd cyffredin, cefndir ethnig a diwylliannol cyffredin a hanes gwleidyddol cyffredin. Yn ogystal, mae awdurdod uchaf y traddodiadau eraill hyn yn aml mewn man sy'n cyfateb i diriogaeth Cynhadledd Esgobol arbennig. Gall sefyllfa o'r fath arwain at berthynas eciwmenaidd ffrwythlon iawn a bod o fudd i'r mudiad eciwmenaidd yn gyffredinol. (37-38)

*pwy sy'n rheoli?*

Ymddiriedwyd arweinyddiaeth eciwmenaidd yr Eglwys Gatholig gan Fatican II i esgobion y byd: i holl Goleg yr Esgobion yng nghwmni'r Pab ar gyfer y byd yn grwn, ac i esgobion neu Gynadleddau Esgobol ar gyfer esgobaethau lleol a thaleithiau. Felly, eu cyfrifoldeb nhw yw rheoli gwaith y bobl a'r comisiynau a ddisgrifir yma. (39-40)

## *Y swyddog eciwmenaidd esgobaethol*


*gwaith y swyddog*

Rhaid i'r esgob benodi rhywun cymwys i gyflawni'r dasg hon. Bydd y cyfrifoldebau'n cynnwys:


• bywiocau gwaith comisiwn eciwmenaidd yr

esgobaeth;
•annog mentrau esgobaethol ym maes gweddïo dros undeb;
•sicrhau fod agweddau eciwmenaidd yn cael dylanwadu ar weithgareddau'r esgobaeth;
•cynrychioli'r gymuned Gatholig mewn perthynas gyda Christnogion eraill a'u harweinwyr;
•hyrwyddo cysylltiadau rhwng arweinwyr Cristnogol eraill a'r esgob, y clerigwyr a'r lleygwyr;
•cynghori'r esgob ac aelodau eraill yr esgobaeth ar faterion eciwmenaidd;
•cadw mewn cysylltiad gyda swyddogion a chomisiynau eciwmenaidd esgobaethau eraill.

Hyd yn oed pan fo pobl yn brin, neu pan fo Catholigion yn y mwyafrif, fe ddylid penodi swyddog eciwmenaidd ar gyfer pa weithgarwch eciwmenaidd bynnag fydd yn addas. (41)



~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~



Pwy yw'ch swyddog eciwmenaidd esgobaethol chi?

Beth mae ef/hi yn ei wneud?

~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~ ~

Efallai y byddwch eisiau ysgrifennu at y swyddog

eciwmenaidd, gyda gwahoddiad i ddod i'ch cyfarfod efallai, neu i gael gwybod pa adnoddau sydd ar gael yn lleol ar gyfer gweithgarwch eciwmenaidd.

*aelodaeth a gwaith y comisiwn*

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

## *Comisiwn eciwmenaidd yr esgobaeth*

Dylai'r esgob sefydlu comisiwn neu ysgrifenyddiaeth i weithredu ei bolisi eciwmenaidd a hyrwyddo gweithgarwch yn y maes o fewn yr esgobaeth. Os oes rhaid, gall nifer o esgobaethau sefydlu comisiwn ar y cyd. (42)

Dylai'r aelodaeth adlewyrchu yr Eglwys yn gyfan gan gynnwys clerigwyr, crefyddwyr gwryw a benyw, a lleygwyr, sydd â'r medrau pwrpasol (yn enwedig rhai eciwmenaidd). Byddai'n syniad da i gynnwys cynrychiolaeth o gyngor offeiriaid yr esgobaeth, y cyngor bugeiliol a'r athrofa esgobaethol neu ranbarthol.

*amodau gorchwyl*

Yn gyffredinol, dylai'r comisiwn gydweithredu gyda grwpiau neu bobl eraill yn yr esgobaeth sydd â nod eciwmenaidd iddynt. Dylai fod mewn cysylltiad gyda phlwyfi, cymunedau crefyddol, a mudiadau lleyg. Dylai fod yn gefn i'r swyddog eciwmenaidd. (43)

A bod yn fwy manwl, dylai amodau gorchwyl y comisiwn gynnwys:

•gweithredu penderfyniadau awdurdodau'r Eglwys ar
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

faterion eciwmenaidd;

•cadw mewn cysylltiad gyda chomisiwn eciwmenaidd Cynhadledd yr Esgobion;

•hyrwyddo eciwmeniaeth ysbrydol;


•bwrw ymlaen gyda ffurfiant eciwmenaidd clerigwyr a lleygwyr drwy gynnal cynadleddau diwrnod, seminarau ac ati;

•ymddiddori yn y ffordd mae myfyrwyr yn yr athrofeydd yn cael eu paratoi ar gyfer dimensiwn eciwmenaidd eu gweinidogaeth arfaethedig;


•hyrwyddo perthynas dda rhwng Catholigion a Christnogion eraill;

•sefydlu dialog gyda Christnogion eraill o fewn yr esgobaeth;

•hyrwyddo tystiolaethu ar y cyd i'r ffydd Gristnogol a chydweithredu gyda Christnogion eraill mewn meysydd megis addysg, heddwch a chyfiawnder, a diwylliant. (44)



Dylai'r plwyfi, hefyd, gael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau eciwmenaidd lleol, gan rannu eu profiad o eciwmeniaeth gyda phlwyfi eraill a chydag awdurdodau'r esgobaeth. (45)



~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Pwy yw aelodau Comisiwn Eciwmenaidd yr Esgobaeth?

Sut allen nhw eich helpu chi?

*swyddogaeth Pwyllgor Cynhadledd yr Esgobion dros Undod Cristnogol*

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Mynnwch gael gwybod beth mae'r comisiwn yn ei wneud a pha adnoddau ellir eu cynnig i'ch plwyf chi i'ch helpu i 'gymryd rhan mewn gweithgareddau eciwmenaidd lleol'. (45)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

## *Comisiwn eciwmenaidd Cynhadledd yr Esgobion*

Mae'n rhaid i bob Cynhadledd Esgobion sefydlu comisiwn o esgobion ar gyfer materion eciwmenaidd, gydag arbenigwyr (clerigol, crefyddol a lleyg), gydag ysgrifenyddiaeth os oes modd. Bydd y comisiwn yn cynnig arweiniad yng nghyd-destun y rhanbarth. Os nad yw'r Gynhadledd yn ddigon mawr ar gyfer comisiwn o esgobion, dylid rhoi i un esgob y cyfrifoldeb o arolygu gwaith y comisiwn, sef: (46)

•gwneud y rhan fwyaf o'r hyn mae'n rhaid i gomisiwn esgobaethol ei wneud (uchod), ond dros y diriogaeth ehangach;
•gweithredu unrhyw gyfarwyddyd ddaw oddi wrth y Sedd Sanctaidd;
•hwyluso cydweithrediad rhwng swyddogion

eciwmenaidd esgobaethol, a rhwng comisiynau, ar draws y rhanbarth, a threfnu cyfarfodydd;

•cynorthwyo comisiynau eraill ac adrannau o Gynhadledd yr Esgobion i sicrhau fod dimensiwn eciwmenaidd i'w gweithgarwch;

*y gwaith eciwmenaidd y dylai urddau a chymdeithasau crefyddol ymgymryd â nhw*

•cynorthwyo i sefydlu dialogau ac ymgynghori gyda thraddodiadau Cristnogol eraill ar lefel genedlaethol, a phenodi pobl gymwys i gymryd rhan ynddynt;

•cadw mewn cysylltiad gyda gweithgareddau eciwmenaidd grwpiau eraill, megis urddau crefyddol ac eraill sydd mewn buchedd gysegredig;

•cynnal cysylltiad gyda Chynhadledd yr Esgobion a chomisiynau eciwmenaidd Cynadleddau eraill, a hefyd gyda'r Cyngor Pontificaidd dros Hyrwyddo Undod Cristnogol. (47)

## *Urddau crefyddol a chymdeithasau o fywyd apostolaidd*

Mae ymrwymiadau arbennig y cymunedau hyn yn yr Eglwys, a'r amgylchiadau lle maen nhw'n aml yn byw yn ôl y rheini, yn golygu fod ganddyn nhw gyfleoedd arbennig ar gyfer meddyliau a gwaith eciwmenaidd. Mewn ffyrdd sy'n gyson a'u galwad, dylent, er enghraifft:

•gynyddu'r ymwybyddiaeth o bwysigrwydd eciwmenaidd y bywyd crefyddol – mae tröedigaeth calonnau, sancteiddrwydd, gweddi a gwasanaeth i gyd wrth galon y mudiad eciwmenaidd;

•cynorthwyo pobl i sylweddoli gwedd eciwmenaidd galwad pob Cristion i fyw bywyd sanctaidd, trwy gynnig arweiniad mewn ffurfiant ysbrydol, gweddi a gwasanaeth i eraill;

•trefnu cyfarfodydd ymysg Cristnogion ar gyfer gweddïo litwrgïaidd, enciliadau ac ymarferion

ysbrydol; a dirnadaeth dyfnach o’r traddodiadau ysbrydol Cristnogol;

•datblygu perthynas gyda chymunedau mewn traddodiadau Cristnogol eraill, gan rannu profiad ac adnoddau;

•cydweithredu gyda Christnogion eraill wrth weithio dros gyfiawnder cymdeithasol, heddwch a gofal am yr amgylchedd, ac ym meysydd iechyd ac addysg.

Bydd rhaid i’r cymunedau crefyddol hyn, wrth gwrs, weithredu yn ôl polisi eciwmenaidd yr esgob a Chynhadledd yr Esgobion, gan gadw cysylltiad yn ôl y galw gyda’u comisiynau eciwmenaidd a chyda’r Sedd Sanctaidd.

*mae gan fudiadau lleol eu rhan*

Byddai’n syniad da petai awdurdodau canolog y cymunedau crefyddol hyn yn penodi cynrychiolydd, neu gomisiwn, i hybu eu hymrwymiad i eciwmeniaeth ac i fod yn gyfrifol am ffurfiant, cyngor a symudiadau ymarferol eciwmenaidd. (51)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

1. Os ydych yn aelod o urdd crefyddol, faint o’r pwyntiau uchod yr ydych chi’n ymwneud â nhw?

2. Beth arall allai’ch urdd chi wneud i hwyluso’r daith eciwmenaidd?

3. Os nad ydych yn aelod o urdd crefyddol, ewch ati i holi beth mae’r cynulleidfaoedd crefyddol sy’n gweithio yn eich ardal chi yn ei wneud dros eciwmeniaeth.

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

## *Mudiadau ymysg y Ffyddloniaid Catholig*

*gwaith y Cyngor Pontificaidd*

Ar bob lefel yn yr Eglwys, o'r plwyf i'r byd yn grwn, mae yna
fudiadau ar gyfer adferiad ysbrydol, heddwch a chyfiawnder, addysg a chymorth economaidd. Mae'n rhaid i'r rhain i gyd gymryd agweddau eciwmenaidd eu gwaith i ystyriaeth. (52)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~
~~~~~~~~~

I ba raddau mae'n mudiadau plwyfol yn cymryd agweddau eciwmenaidd eu gweithgareddau 'o ddifrif'?

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~
~~~~~~~~~
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~
~~~~~~~~~

Os ydych chi'n aelod o fudiad Catholig (e.e. SVP, Undeb y Mamau Catholig, Cynghrair y Merched Catholig) cysylltwch â'r rhai sydd mewn sefyllfa gyffelyb yn yr enwadau eraill, a gweld a oes yna ffyrdd ichi wneud rhywfaint o'ch gwaith gyda'ch gilydd.

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~
~~~~~~~~~

## *Y Cyngor Pontificaidd dros Hyrwyddo Undod Cristnogol*

Ar lefel yr Eglwys fyd-eang, mae'r Cyngor Pontificaidd yn gweithredu fel adran o'r Fatican, gyda'r brîff i hyrwyddo cymundeb llawn ymysg yr holl Gristnogion. Mae'n ceisio hybu ysbryd a gweithgarwch eciwmenaidd o fewn yr Eglwys Gatholig,

# III. Ffurfiant eciwmenaidd yn yr Eglwys Gatholig

*Mae'r bennod hon yn edrych ar gwestiwn dysgu am eciwmeniaeth a sut allwn ni ddatblygu agwedd eciwmenaidd. Mae yna bedair adran:*

*A. Ffurfiant y ffyddloniaid*
*B. Ffurfiant gweinidogion bugeiliol (ordeiniedig a lleyg)*
*C. Ffurfiant arbenigol*
*Ch. Ffurfiant parhaus*

*o bwys i bawb*

Mae'r ymchwil am undod Cristnogol yn fater o bwys i bawb yn yr Eglwys: lleygwyr a chlerigwyr fel ei gilydd. Mae angen i bawb gael eu haddysgu a'u ffurfio ar gyfer chwarae eu rhan briodol, ac mae'r modd i hynny ddigwydd wrth law o fewn yr Eglwys Gatholig. (55)

*agwedd hyblyg*

Mae yna amrywiaeth enfawr mewn pobl, ac felly rhaid wrth ddulliau ffurfiant hyblyg. Mae eciwmeniaeth yn galw am dröedigaeth yn y galon ac agwedd newydd, ac felly rhaid i'r rhai sy'n arolygu weithredu'n sensitif iawn ac, yn aml, gan bwyll bach. (56)

*egwyddorion sylfaenol*

Wrth lunio cynllun ar gyfer datblygu ffurfiant eciwmenaidd yn raddol a phendant, naill ai ar gyfer athrawon neu bobl yn y weinidogaeth fugeiliol, mae yna rai egwyddorion sylfaenol i'w cadw mewn cof:

•o'r cychwyn cyntaf, rhaid dyfnhau gwybodaeth Feiblaidd ac athrawiaethol, ynghyd ag astudio hanes a sefyllfa eciwmenaidd y wlad;
•yr angen am astudio hanes y rhaniadau crefyddol, a'r

ymdrechion i'w gwella;
•yr angen i astudio athrawiaethau Eglwysi a Chymunedau eraill o fewn eu cyd-destun hanesyddol;
•yr angen i astudio'r trafodaethau ac astudiaethau sydd wedi digwydd ar y cyd, ynghyd ag unrhyw gasgliadau y daethpwyd iddynt.

Mae'r ffurfiant datblygol hwn yn arwain y rhai sy'n cymryd rhan ynddo i allu gwahaniaethu rhwng gwir wahaniaethau o ran egwyddorion a phethau sy'n tarddu o amrywiaeth dderbyniol, ac yn gochel rhag dehongliadau goddrychol o gredoau a bywydau Cristnogion eraill, ac, yn wir, o athrawiaeth Gatholig ei hun. Wrth i'r broses fynd yn ei blaen, dylai pryder dros gadw undod yr Eglwys Gatholig a thros gymundeb gyda Christnogion eraill ddyfod fel dwy ochr yr un geiniog, ac yn hollol anwahanadwy. (57)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Yng ngŵydd eich sefyllfa leol chi'ch hunan, rhestrwch yr egwyddorion uchod yn ôl eu blaenoriaeth ar gyfer gweithredu. Penderfynwch sut ewch chi ati i gael dechrau hynny.

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

*undod gyda Christ - yr Eglwys - Cristnogion eraill*

## A. Ffurfiant yr holl ffyddloniaid

Mae'r rhodd o undod y gweddïodd Ein Harglwydd amdano ar y noson cyn ei Ddioddefaint yn rhywbeth o bwys sylfaenol i bob aelod o'r Eglwys a ninnau wedi'n

hydreiddio ag Ysbryd Crist.

•Yn y lle cyntaf, yr undod hwn yw ein hundod gyda Christ ei hun – mewn un symudiad o gariad sydd, trwy Grist, yn ymestyn i'r Tad ac i'n cymydog;
•yn ail, yr undod hwn yw ein cymundeb gyda'r holl Eglwys trwy'r byd – trwy fod mewn cymundeb gyda'r esgobaeth arbennig yr ydym yn aelod ohoni;
•yn drydydd, yr undod hwn yw cyflawnder yr undod yr ydym yn ei geisio gyda Christnogion eraill. (58)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Beth yw'r cysylltiad rhwng eich twf personol chi mewn sancteiddrwydd ac undod Cristnogol?

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

*fe'n ffurfir mewn ffyrdd gwahanol*

Modd y ffurfiant

Clywed ac astudio Gair Duw yn y Beibl
Fel ninnau, mae gan ein cyd-Gristnogion gariad dwfn a pharch at yr Ysgrythurau Sanctaidd; felly os astudiwn ni'r Beibl yn ysbryd cariad a gwrando'n astud ar yr hyn y mae'n dweud, bydd yr un Gair Duw yn cryfhau'r llwybr at undod. (59)

Pregethu
Mae'r gwahanol rannau o'r flwyddyn litwrgïaidd yn cynnig llawer cyfle i bregethu ar themâu yn ymwneud ag undod. 'Dylai pregethu ymwneud â datgelu dirgeledd undod yr Eglwys, a, hyd y gellir, hyrwyddo undod gweladwy Cristnogion'. (60)

Dysgu’r ffydd (cateceiddio)

Mae cyfnod addysg grefyddol (ar gyfer pobl ifainc ac oedolion) yn amser allweddol ar gyfer ffurfio agweddau eciwmenaidd. Ond, er mwyn sicrhau bod y ffurfiant yn digwydd, rhaid:

•dysgu athrawiaethau Catholig yn eu cyflawnder, yn gadarn ond yn oddefgar, a chofio fod rhai athrawiaethau yn nes at galon y datguddiad Cristnogol nag eraill (yr hyn a elwir yn hierarchaeth gwirionedd).

•cyflwyno dysgeidiaeth ac arferion traddodiadau Cristnogol eraill yn gywir ac onest, gan gydnabod fod llawer o elfennau gwerthfawr iawn Eglwys Crist i’w canfod yno, a bod Duw yn defnyddio’r Eglwysi a Chymunedau hyn fel moddion iachawdwriaeth. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i ddirnad y gwirioneddau a ddelir gennym yn gyffredin, dyfnhau ein ffydd Gatholig ein hunain a’n galluogi i werthfawrogi ffydd Cristnogion eraill yn well.

•i’n haddysg grefyddol ennyn awydd gwirioneddol ynom am undod, a phenderfyniad i waredu’n hunain yn ostyngedig o unrhyw rwystrau diangen yr ydym yn eu gosod yn y ffordd.

•inni bwysleisio y gellir mynegi gwirionedd y ffydd mewn mwy nag un ffordd yn aml – gan fod hyn yn gallu helpu dealltwriaeth a dialog eciwmenaidd. (61)

Litwrgi

Gall y litwrgi wneud cyfraniad cadarnhaol i undod Cristnogion, gan ei fod yn dathlu undod yn ogystal â’i hybu. Mae hyn yn arbennig o wir am yr Ewcharist, felly mae’n hollbwysig fod yr Offeren yn cael ei

dathlu'n dda, i roi'r cyfle gorau i'r ffyddloniaid gael eu tynnu i fewn i undod agosach gyda Duw a'i gilydd. Mae gweddïau litwrgïaidd dros undod, fel yr Offeren Ddiofrydol dros Undod sydd yn y Llyfr Offeren, yn adnodd pwysig hefyd; fel y mae gwasanaethau dros undod yn ystod yr Wythnos Weddi yn Ionawr neu'n agos at y Sulgwyn. Gall y rhain feithrin agweddau eciwmenaidd. (62)

Y bywyd ysbrydol

'Newid calon a sancteiddrwydd buchedd, ynghyd â gweddi gyhoeddus a phreifat dros undod Cristnogol, ddylai fod yn amlwg fel enaid yr holl fudiad eciwmenaidd' (UR8). Mae byw bywyd gwirioneddol ysbrydol eisoes yn golygu cyfrannu'n ddwfn i'r mudiad eciwmenaidd.

Rhaid i Gatholigion ddysgu gwerthfawrogi'r cyfoeth ysbrydol sydd yn y traddodiadau Cristnogol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys yr Ysgrythurau, rhai neu'r holl sagrafennau, rhoddion yr Ysbryd Glân a rhinweddau allweddol o ffydd, gobaith a chariad. Mae gan yr Eglwysi Dwyreiniol eu traddodiad cyfriniol, eu bywyd mynachaidd (sydd hefyd gan yr Anglicaniaid); mae yna gyfoeth yn addoliad a duwiolrwydd yr Anglicaniaid, traddodiadau gweddi efengylaidd, a ffurfiau ysbrydolrwydd Protestannaidd. Rhaid i Gatholigion wybod llawer mwy am y rhain a, lle bo hynny'n briodol, elwa drwy gymryd rhan ynddyn nhw. (63)



*fe'n ffurfir mewn llefydd gwahanol*

Dulliau eraill o ffurfiant

Drwy weithio gyda'n gilydd dros yr 'Efengyl cymdeithasol', brwydro gyda'n gilydd dros iawnderau dynol a heddwch, rhannu gofid dros gyfanrwydd y greadigaeth, mae'r rhain i gyd yn help i ffurfio agwedd eciwmenaidd, yn arbennig pan fo yna fyfyrio ar y cyd am yr union resymau Cristnogol sy'n cymell y gweithgarwch. (64)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

O'r rhestr uchod o weithgareddau eciwmenaidd ffurfiannol, p'run gredwch chi ddylai gael y flaenoriaeth?

Gwnewch restr o'r hyn allech chi ei gyflawni yn ôl eich blaenoriaethau.

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Ble all ffurfiant ffynnu?

Mae yna lefydd lle gall aeddfedrwydd dynol a Christnogol, a'r ymwybyddiaeth o gyfeillgarwch a chymundeb, dyfu. Y rhain, hefyd, yw hadwelyau agwedd eciwmenaidd groesawgar. (65)


Yn y teulu

Galwodd Fatican II y teulu yr 'eglwys ddomestig'. O fewn y teulu, ddiwrnod ar ôl diwrnod, mae undod yn cael ei gryfhau neu'i wanhau yn ôl ansawdd y cariad a'r cymundeb sydd yno. Mae'r teulu delfrydol yn gymundeb sy'n agored i'r Eglwys a chymdeithas, ac yn gymundeb lle y brwydrir yn erbyn rhagfarn.

Mae gan briodasau cymysg ddyletswydd arbennig yn y maes yma, wrth iddyn nhw ymdrechu i fyw yn ôl eu bedydd cyffredin ar draws y rhaniadau, ac adeiladu a bod yn esiamplau o undod Cristnogol trwy ansawdd eu bywyd gyda'i gilydd. (66)

Yn y plwyf

'Dylai pob plwyf fod, a chyhoeddi ei fod, y lle priodol i dystiolaeth eciwmenaidd cywir'. Trwy'r pregethu a chateceiddio sy'n digwydd yno dylai'r plwyfolion gael eu ffurfio yn yr ysbryd eciwmenaidd. Dylid dewis rhywun o fewn y plwyf i gymryd y cyfrifoldeb dros hyrwyddo a threfnu gweithgareddau eciwmenaidd, a chydweithredu gyda phlwyfi a chynulleidfaoedd Cristnogion eraill. Yn ogystal, dylai plwyf dystio i undod yr Eglwys drwy ansawdd perthynas ei haelodau â'i gilydd, a'u parch at ei gilydd. (67)



Yn yr ysgol

Dylai pob ysgol, o bob math, fod â dimensiwn eciwmenaidd i'w sylabws Addysg Grefyddol. Dylent fod yn meithrin calonnau a meddyliau ifainc mewn bod yn agored i ddialog, ac yn y materion sy'n cyfrannu at heddwch a pherthynas dda rhwng pobl. Ar y lefel berthnasol, dylai'r ysgol ddysgu eciwmeniaeth go iawn i'r disgyblion yn ôl dysgeidiaeth yr Eglwys Gatholig, a phynciau eraill, fel hanes neu gelfyddyd, fod yn cael eu cyflwyno gyda'r dimensiwn eciwmenaidd yn eu goleuo. Mae'n rhaid i athrawon, felly, fod â gwybodaeth

ddigonol am hanes a dysg traddodiadau Cristnogol eraill. (68)

Mewn mudiadau Catholig
Rhaid atal y rhain rhag bod yn fewnblyg, ond, yn hytrach, yn agored i ymgynghori a rhannu profiadau gyda chyrff cyffelyb o draddodiadau gwahanol, a, lle gallai hynny fod o help, yn awyddus i weithio gyda nhw. (69)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

1. Beth ydych chi wedi'i ddysgu o'r adran hon?

2. Pa syniadau welwch chi yma ar gyfer prosiectau lleol?

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

*rhaid i ymgeiswyr ddatblygu agwedd eciwmenaidd*

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Mae eciwmeniaeth yn fater i bawb
Ymagwedd eciwmenaidd dilys
Rhaid i bawb gael eu dysgu a'u ffurfio
Twf drwy ysbrydolrwydd
Pwysigrwydd y Beibl
Pwysigrwydd athrawiaeth
Ymwybyddiaeth o wahanol ddulliau o ffurfiant
Ymwybyddiaeth o wahanol lefydd
Byddwch yn gyfarwydd â'ch ffydd – ac

*rhan o draddodiad catholig*
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

â ffydd Cristnogion eraill

Yng ngwydd yr uchod a'ch ystyriaeth o beth wnewch chi yn ymarferol o ganlyniad i'r bennod hon, beth yw'r peth wnewch chi, a phryd?

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

## *B. Ffurfiant y rhai sydd mewn gweinidogaeth fugeiliol*

### GWEINIDOGION ORDEINIEDIG

*treftadaeth Gristnogol gyffredin*

'Mae angen i ymgeiswyr am y weinidogaeth ddatblygu i'r eithaf y nodweddion dynol hynny sy'n gwneud rhywun yn dderbyniol a chredadwy ymysg pobl, gan wirio'u hiaith a gallu i ddialogu yn rheolaidd, er mwyn meithrin ymagwedd eciwmenaidd dilys.' Mae'r nodweddion hyn yn berthnasol i ddiaconiaid parhaol fel ag i esgobion ac offeiriaid. (70)

a) Ffurfiant Athrawiaethol

Y dimensiwn eciwmenaidd mewn ffurfiant
Rhaid i weithgarwch eciwmenaidd fod yn llwyr gyson gyda'r ffydd y mae'r Eglwys Gatholig wedi'i broffesu drwy'r oesoedd, ac eto bod yn agored i ddialog ac yn rhydd o ddehongliadau goddrychol o athrawiaeth Catholig neu rai traddodiadau eraill. Felly, fe all myfyrwyr fod yn hyderus y bydd datganiadau dogmatig digyfnewid yr Eglwys yn parhau i gyflwyno gwirionedd datguddiedig os dehonglwn ni nhw'n gywir; yr un pryd rhaid iddyn nhw ddysgu'r gwahaniaeth rhwng y gwirionedd datguddiedig ei hun a'r dulliau o fynegi
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

*mae eciwmeniaeth yn rhan o'r sylabws cyfan*

hwnnw yn y cyd-destun oedd yn amrywio o gyfnod i gyfnod hanesyddol. Rhaid iddyn nhw werthfawrogi'r traddodiad apostolaidd sylfaenol a thraddodiadau sydd ond yn rhai eglwysig. Dylent hefyd gydnabod y gellir cael amrywiaeth hollol ddilys mewn iaith ddiwinyddol, sy'n golygu y gall cyflwyniadau fod yn gyflenwol yn hytrach nag yn wrthwynebus i'w gilydd. Rhaid i'r 'hierarchaeth o wirioneddau' (gweler 61) gael ei barchu bob amser – h.y. nid yw pob gwirionedd a goleddwn fel rhan o'n ffydd mor ganolog â'i gilydd i'r dirgeledd a ddatgelwyd yng Nghrist. (73-75)

Y dimensiwn eciwmenaidd mewn ffurfiant diwinyddol

*cwrs penodol ar eciwmeniaeth*

Nid dim ond mater o ategu cwrs ar eciwmeniaeth i'r sylabws yw hi -dylai pob pwnc roi pwyslais, lle bo hynny'n addas, ar:

•ein treftadaeth Gristnogol gyffredin o wirionedd a sancteiddrwydd;

•cyfoeth y traddodiadau eraill mewn ysbrydolrwydd, litwrgi ac athrawiaeth;

•pwyntiau o anghydfynd sy'n hwb i ymchwil pellach i Air Duw; gall hyn helpu i wahaniaethu gwrthddywediadau gwirioneddol oddi wrth rai ymddangosiadol. (76)

Dimensiwn eciwmenaidd pynciau diwinyddol unigol

Dylai pob pwnc ar y sylabws diwinyddol ddatgelu cysylltiad gyda dirgeledd o undod Cristnogol. Dylai agwedd cymharol at y pwnc, fel ym mharagraff 76 arwain at ymwybyddiaeth o gyfoeth y traddodiad Cristnogol yn ei gyfanrwydd, ac ennyn ffyddlondeb ato. 'Pan fo myfyrwyr yn cymharu eu treftadaeth nhw'u

hunain gyda chyfoeth traddodiadau eraill y dwyrain a'r gorllewin, yn eu mynegiant hynafol neu fodern, fe ddônt yn fwy ymwybodol o'r cyfanrwydd hwn.' (77)

Mae hyn yn wir am bob disgyblaeth, ar draws y sylabws i gyd, o'r ysgrythurau a'r Tadau Eglwysig hyd at astudiaethau bugeiliol a chymdeithasegol; gall y cyfan gyfrannu at ymwybyddiaeth dyfnach o gyflawnder y traddodiad Cristnogol. (77-78)

Cwrs penodol ar eciwmeniaeth

*profiad yn ogystal â theori*

Yn ystod eu hyfforddiant yn yr athrofa rhaid cael cwrs penodol ar eciwmeniaeth. Dylid cael cyflwyniad cyffredinol yn gynnar yn y cwricwlwm, i sicrhau y bydd y myfyrwyr yn fwy ymwybodol o'r dimensiwn eciwmenaidd i bopeth y byddant yn ei astudio, a chynnal ymdriniaeth gyflawn tua'r diwedd fel y gellir integreiddio'r pwnc i fewn i'w holl ffurfiant diwinyddol.

Bydd cynnwys y cwrs yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau, ond dylid rhoi lle amlwg i'r canlynol:

*addysg eciwmenaidd i bawb - catecetwyr ac athrawon*

•y syniad o 'gatholigrwydd' (yr Eglwys fel corff byd-eang a holl gynhwysol), a'r ddealltwriaeth Catholig o undod gweladwy ac organig yr Eglwys;
•sylfaen athrawiaethol a chyfiawnhad gweithgarwch eciwmenaidd – yn arbennig y cymundeb gwirioneddol ond anghyflawn sydd eisoes yn bodoli rhwng Cristnogion;

*ar gyfer cymunedau crefyddol*

•hanes ein rhaniadau ac o'r ymdrechion i'w gwella – lle'r ydym ni erbyn hyn;
•ffurfiau a 'modelau' gwahanol o undod;
•beth yw natur y gwahanol Eglwysi a Chymunedau erbyn heddiw, eu bywydau a'u strwythurau, eu

hysbrydolrwydd, a'u ffyrdd o addoli;
•problemau arbennig, megis addoli ar y cyd, priodasau cymysg, swyddogaeth y lleygwyr (merched yn arbennig) yn yr Eglwys. (79-80)

Wrth gwrs, fe fyddai'n ddoeth i wahodd darlithwyr ac arbenigwyr o gymunedau eraill, yn enwedig i drafod dysgeidiaeth a bywyd eu traddodiadau nhw'u hunain. (81)

*i leygwyr*

b) Profiad eciwmenaidd
Ni ddylid cyfyngu ffurfiant eciwmenaidd myfyrwyr i'r damcaniaethol, ond hefyd cymryd sylw o brofiad byw traddodiadau eraill. Bydd hi'n beth da i drefnu cyfarfodydd, achlysuron cymdeithasol, trafodaethau a dialogau, gan gynnwys cyfarfodydd rhwng myfyrwyr am y weinidogaeth. Ymhellach na hynny, rhaid ystyried y sefyllfa gan yr awdurdodau lleol. (82)

## GWEINIDOGION A CHYNORTHWYWYR ANORDEINIEDIG

a) Ffurfiant athrawiaethol
Ar gyfer catecetwyr lleyg, athrawon a chynorthwywyr eraill, ac mewn sefydliadau ar gyfer ffurfiant crefyddol, bugeiliol ac addysgol, mae'r un rhaglen ac egwyddorion yn addas ag ar gyfer y weinidogaeth ordeiniedig – ond wedi'u haddasu ar gyfer y math o bobl sydd ar y cwrs. (83)

Rhaid cofio am y cymunedau crefyddol o fathau gwahanol. Mae angen i'r rhain rannu ym mywyd eciwmenaidd yr Eglwys, mewn ffyrdd sy'n addas iddyn nhw. Dylai'r ffurfiant eciwmenaidd ddechrau yn y nofyddiaeth a pharhau trwy gydol y ffurfiant. Dylid

cynnwys dimensiwn eciwmenaidd ym mhob pwnc, a dylid cynnwys cwrs penodol ar eciwmeniaeth yn ogystal. Dylai pob sefydliad crefyddol fod ag arbenigydd wedi'i hyfforddi mewn eciwmeniaeth, i fod yn gyfrifol am ymrwymiad eciwmenaidd yr holl sefydliad. (84)

b) Profiad eciwmenaidd

Dylid annog lleygwyr sydd â chyfrifoldebau eciwmenaidd i ddatblygu cysylltiadau a chyfnewidiadau gydag Eglwysi a Chymunedau eraill. Yn achos y crefyddwyr, gellir trefnu cyfnewid gwybodaeth, neu gymorth ysbrydol a hyd yn oed materol, gyda mynachlogydd a chymunedau crefyddol traddodiadau eraill. (85-86)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Os ydych chi’n:

•offeiriad ordeiniedig
•ddiacon
•fyfyriwr mewn athrofa neu’n dysgu mewn un
•aelod o urdd crefyddol
•gatecetydd neu mewn gweinidogaeth leyg arall

pa agweddau ar yr uchod y teimlwch fod angen ichi wybod mwy amdanyn nhw?

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

## *C. Ffurfiant arbenigol*

Pwysigrwydd ffurfiant ar gyfer dialog

Mae gan brifysgolion a sefydliadau addysg uwch Catholig ran allweddol yn ffurfio pobl a all ymhellach ymlaen gymryd rhan mewn dialog swyddogol. Bydd y

rheini angen:

•ymrwymiad ffydd diffuant (neu fe geir dialog sy’n ddim ond
ymarfer academaidd);
•ymchwil cyson am lwybrau newydd tuag at undod, trwy fod yn ffyddlonach i’r Efengyl a’r ffydd Gristnogol;
*diweddaru*
•argyhoeddiad nad yw dialog swyddogol yn ddim namyn sgwrs breifat, ond, yn hytrach, ei fod ar ran yr holl Eglwys, ac felly fod rhaid iddo fod yn gyson â dysgeidiaeth yr Eglwys;
•parch at argyhoeddiadau eich partneriaid yn y dialog, a chydnabyddiaeth y gallant ein cynorthwyo ni i ddeall ac egluro eu ffydd a’u bywyd nhw;
•cydnabyddiaeth nad yw pob un yn addas i gymryd rhan mewn dialog o’r fath oherwydd diffyg cymwysterau; mae yna amrywiaeth mewn safon addysg, aeddfedrwydd meddwl a thwf ysbrydol.(87)

Cyfadrannau diwinyddol Eglwysig

Dylid astudio cwestiynau eciwmenaidd yn y cwrs gradd cyntaf, ac yna, eto, ar lefel yr ail radd, lle y dylid cynnig cyrsiau arbenigol mewn eciwmeniaeth. Wrth gwrs, dylai’r dimensiwn eciwmenaidd fod yno trwy gydol yr holl raglen. (88)

Prifysgolion Catholig

Dylid cael dimensiwn eciwmenaidd lle bynnag y bo’r pwnc yn galw amdano. Gellir cynnal cyfarfodydd a chynadleddau, trafod eciwmeniaeth yng nghylchgronau’r brifysgol, hybu perthynas dda rhwng y myfyrwyr Catholig a rhai Cristnogol eraill, gweddïo ac enciliadau ar y cyd yn ôl egwyddorion addoli ar y cyd; a chydweithredu mewn gweithgarwch dros

heddwch a chyfiawnder. (89)

Sefydliadau eciwmenaidd arbenigol

Ym mhob rhan o'r Eglwys, mae angen sefydliadau lle ceir ymchwil ac addysgu ar eciwmeniaeth ar y cyd gyda Christnogion eraill. Yma crëir adnodd gwerthfawr ar gyfer gweithgarwch eciwmenaidd yr Eglwys. (90)

[Datblygir ystyr y bennod hon ar ffurfiant eciwmenaidd yn fwy helaeth mewn dogfen gan y Cyngor Pontificaidd dros Hyrwyddo Undod Cristnogol, *Y Dimensiwn eciwmenaidd yn ffurfiant y rhai sy'n ymwneud â gwaith bugeiliol*, Mawrth 1998 – gweler *Briefing*, vol 28 rhif 3, Mawrth 19, 1998.]

## *Ch. Ffurfiant parhaus*

Mae ar weinidogion a gweithwyr, y rhai ordeiniedig a'r rhai anordeiniedig, angen diweddaru eu hymwybyddiaeth eciwmenaidd yn gyson, gan fod y maes yn datblygu gymaint. Mae'n ddyletswydd ar esgobion a phenaethiaid urddau crefyddol i roi sylw manwl i hyfforddiant systematig eu hoffeiriaid, crefyddwyr, diaconiaid a lleygwyr ar gyflwr cyfredol y mudiad eciwmenaidd. Gellir gwadd gweinidogion o Eglwysi eraill i esbonio natur eu traddodiadau, ac i siarad am y materion bugeiliol sydd mor aml yn gyffredin inni i gyd. Mae'n bosib i gyfarfodydd lleol a rhanbarthol clerigwyr ddyfnhau'r berthynas gyda'r lleill a datrys problemau ar y cyd. Gallai'r athrofeydd a sefydliadau diwinyddol eraill gynnig cyfleoedd ar gyfer ffurfiant parhaus o'r fath. A gall y cyfryngau, yn enwedig y rhai crefyddol, gynnig gwasanaeth hwylus trwy gyfrannu gwybodaeth am ddatblygiadau diweddar. Mae cyfarfodydd ysbrydol ac enciliadau ar y cyd yn cynnig cyfle i fyfyrio a gweddïo ar y cyd am undod, rhannu

# IV. Cymundeb mewn bywyd a gweithgarwch ysbrydol ymysg y bedyddiedig

*Mae'r bennod hon yn trafod ffurfiau addas o rannu gweddi ac addoliad sagrafenaidd ac ansagrafenaidd. Mae'n gwneud hyn mewn tair rhan:*
*A. Sagrafen bedydd*
*B. Rhannu gweithgareddau ac adnoddau ysbrydol*
*C. Priodasau cymysg*

## *A. Sagrafen bedydd*

*mae bedydd yn ddechrau*

Trwy fedydd, mae rhywun yn cael ei g/chorffori yn wirioneddol yng Nghrist ac yn ei Eglwys, a'i (h)aileni i rannu'r bywyd dwyfol: felly mae bedydd yn rhwymyn sagrafenaidd o undod ymysg pawb a'i derbyniodd. Ond dim ond dechrau yw bedydd, gan ei fod yn cael ei gyfeirio tuag at gael cyflawnder bywyd yng Nghrist, a dylai arwain at gyffes llwyr o ffydd, ymgorfforiad llwyr i system iachawdwriaeth Crist, a chymundeb Ewcharistaidd. (92)

*sut y gweinyddir bedydd*

Rhaid gweinyddu bedydd:
•gyda dŵr
•ffurf eiriau sy'n datgan yn eglur ei fod yn cael ei wneud yn enw'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân.

Mae'n rhaid i bob traddodiad Cristnogol ddathlu bedydd yn y dull hwn, a chytuno mor agos â phosib ar ei arwyddocâd a'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn i fedydd fod yn ddilys. Rhaid wrth ddialog rhyngddyn nhw, er mwyn cyrraedd dealltwriaeth cyffredin o'r

sagrafen, cydnabyddiaeth o'i gilydd, a phrosesau cytûn pan fo yna amheuaeth. (93/94)

Wrth ymgyrraedd at y ddealltwriaeth cyffredin, yr hyn y dymunai'r traddodiad Catholig ei ddweud fyddai:

1. Mae bedyddio trwy drochi neu arllwys, gyda'r fformiwla Trindodaidd, yn dilysu'r weithred. Felly os bydd llyfrau litwrgïaidd unrhyw draddodiad yn gofyn am y naill neu'r llall o'r dulliau uchod bydd y bedydd yn ddilys – oni bai, mewn sefyllfa arbennig, fod gwir sail i amau na wnaeth y gweinidog weithredu'r ddefod yn gywir.

2. Nid yw diffyg yn ffydd y gweinidog ddim yn annilysu'r bedydd, cyn belled â'i f/bod yn bwriadu gwneud beth mae'r Eglwys yn ei wneud. Fe gymerir mai dyna yw bwriad y gweinidog oni bai fod yna wir sail i amau hynny.

3. Weithiau fe geir amheuon am sut y defnyddiwyd y dŵr neu a ddefnyddiwyd dŵr o gwbl. Mae'n hawdd amau y dilysrwydd lle ceir yr ymarfer o ysgeintio dŵr dros nifer o ymgeiswyr yr un pryd. Dylid astudio arfer normal y traddodiad dan sylw cyn dod i benderfyniad am y dilysrwydd. (95)

*bedydd cyffredin ond i un Eglwys arbennig*

Gall Catholigion ymuno gyda Christnogion eraill mewn dathliad o'r bedydd sy'n eu huno, ac mewn adnewyddu addewidion bedydd. (96)

Er bod bedydd yn corffori rhywun i fewn i Grist a'i un Eglwys, yn ymarferol ni ellir gwneud hyn ond i fewn i Eglwys neu Gymundeb Eglwysig penodol. Felly, ni

ellir gweinyddu bedydd gan ddau weinidog o wahanol draddodiadau. Ond, gyda chaniatâd yr esgob, mae'n hollol dderbyniol:

•i'r gweinidog o'r traddodiad arall ddarllen llith, gynnig gweddi, ac ati, mewn seremoni Gatholig;
•i weinidog Catholig wneud yr un peth mewn bedydd mewn traddodiad arall, os caiff wahoddiad, os na fydd y dathliad yn gwrthdaro'n erbyn egwyddorion neu ddisgyblaeth Gatholig. (97)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

*rhieni bedydd - pwy a pham*

Gan ein bod yn coleddu bedydd cyffredin, pam mae'r Eglwys Gatholig yn dweud na allwn fod yn aelodau llawn o ddwy Eglwys?

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Yn ôl synnwyr caeth canonaidd dylai rhieni bedydd fod yn aelodau o'r un traddodiad â'r bedydd ei hun. Nid dim ond ar gyfer addysg Cristnogol yr ymgeisydd y maen nhw yno, ond fel cynrychiolwyr cymuned ffydd ac i warantu ffydd ac awydd yr ymgeisydd am aelodaeth. Er hynny, oherwydd agosrwydd ffydd yr Eglwys Gatholig a'r Uniongred Dwyreiniol, gall aelod addas o'r traddodiad hwnnw fod yn rhiant bedydd mewn bedydd Catholig, os oes yna reswm digonol, ond i'r rhiant bedydd arall fod yn Gatholig, a bod trefn ar gyfer sicrhau addysg Gatholig yr ymgeisydd. Yr un modd, gall Catholig fod yn rhiant bedydd mewn bedydd Uniongred, os gwahoddir ef neu hi.

*a yw bedydd blaenorol yn ddilys?*

Oherwydd y bedydd cyffredin, a chlymau gwaed a chyfeillgarwch, gall aelod o draddodiad Cristnogol arall [h.y. nid Uniongred Dwyreiniol] fod yn dyst [nad yw, yn dechnegol felly, yn rhiant] mewn bedydd Catholig, ond fod yna riant bedydd Catholig hefyd. Yr un modd, fe all Catholig fod yn dyst mewn bedydd traddodiad arall. (98)

Mae gan pob Cristion yr hawl i gael eu derbyn i gymundeb llawn gyda'r Eglwys Gatholig os ydyn nhw, mewn cydwybod, yn gofyn am hynny. Mewn rhai amgylchiadau fe allai hi fod, wedyn, yn angenrheidiol i sicrhau dilysrwydd eu bedydd blaenorol. Dyma'r broses:

1. Yn achos yr Uniongred Dwyreiniol, mae eu bedydd nhw yn sicr yn ddilys, felly y cwbl sydd rhaid wrtho yw sicrhau ffaith y bedydd. Byddai hyn hefyd yn cadarnhau'r bedydd esgob gan fod hynny'n cael ei weinyddu'r un pryd â'r bedydd (er na nodir hynny ar y dystysgrif bob tro).

2. Yn achos Cristnogion eraill, os cafwyd cytundeb ar fedydd gyda'u Heglwys neu Gymundeb, y cwbl fydd raid wrtho yw sicrhau i'r bedydd gael ei weinyddu yn ôl y cytundeb hwnnw. Os rhoddwyd tystysgrif swyddogol does dim rheswm i amau dilysrwydd y peth, oni bai, mewn sefyllfaoedd arbennig, fod yna reswm cryf dros wneud hynny. Os na chafwyd cytundeb gyda'r traddodiad arbennig dan sylw, ni ddylai hynny o anghenraid arwain at amheuaeth.

*gwahan-iaethu rhwng y bedyddiedig a'r lleill*

3. Os bydd yr amheuaeth yn parhau ar ôl ymchwilio, bydd y gweinidog Catholig yn bedyddio'n amodol, gan esbonio beth mae'n ei wneud a pham. Dylid gweinyddu

*bedydd esgob cyn cymuno*

bedydd o'r fath yn breifat.

4. Dylai cynadleddau esgobion gyhoeddi canllawiau ar gyfer derbyn Cristnogion bedyddiedig, gan gofio nad catecumeniaid ydyn nhw, ac ei bod yn bosib fod ganddyn nhw eisoes wybodaeth a phrofiad helaeth o'r ffydd Gristnogol. (99-101)

Os derbynnir Cristnogion bedyddiedig ar Noswyl y Pasg, rhaid dangos gwahaniaeth rhyngddyn nhw a'r rhai sydd i gael eu bedyddio. (100)
Ar hyn o bryd nid oes cytundeb gyda'r traddodiadau Diwygiedig ynglyn â Bedydd Esgob, felly dylid gweinyddu'r sagrafen i Gristnogion a dderbynnir o'r traddodiadau hynny yn yr Eglwys Gatholig cyn iddyn nhw dderbyn eu Cymun Cyntaf. (101)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

*egwyddorion rhannu*

1. Sut ydych chi'n croesawu pobl o draddodiadau Cristnogol eraill i'ch sefyllfa leol chi?

2. Beth ddysgoch chi o'r adran uchod?

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

## *B. Rhannu gweithgareddau ac adnoddau ysbrydol*

Dylid cefnogi rhannu sy'n addas, ac mae hyn yn cynnwys pethau fel gweddïo, addoliad litwrgïaidd a'r defnydd o bethau a llefydd cysegredig. Mae yna egwyddor deublyg ar waith yma:

1. Rydym ni eisoes mewn gwir gymundeb gyda phawb sydd wedi'i fedyddio. Mae'r rhoddion y credwn ni, Gatholigion, sydd wedi'u cyfrannu'n gyflawn i'r ffydd Gatholig (h.y. yr holl wirionedd datguddiedig a phob moddion iachawdwriaeth) yn bodoli mewn gwahanol ffyrdd tu allan i ffiniau gweladwy'r Eglwys Gatholig. Mae gan Eglwysi a Chymunedau nad ydyn nhw mewn cymundeb llawn gyda ni arwyddocâd a gwerth yn nirgeledd iachawdwriaeth, gan fod yr Ysbryd yn eu defnyddio fel moddion iachawdwriaeth. Felly, mewn amryfal ffyrdd mae eu 'dathliadau yn gallu maethu bywyd gras … a chynnig mynediad i gymundeb y ffyddloniaid.' (U R3-4) Gellir mynegi'r gwir gymundeb hwn rhyngom mewn gweddi a litwrgi cyffredin.

*ymgynghori*

2. Nid ydym mewn cymundeb llawn, oherwydd gwahaniaethau mewn ffydd a dealltwriaeth. Ni fyddai rhannu ysbrydol dilyffethair yn gyfaddas â hynny.

Felly, rhaid wrth reolau i ganiatáu rhannu sy'n addas i'r gwahanol draddodiadau.

(Noder: Ni chaniateir i offeiriaid Catholig gyd-ddathlu'r Ewcharist gyda gweinidogion o draddodiadau eraill, oherwydd mai mynegiad gweladwy o gymundeb cyflawn mewn ffydd, addoliad a bywyd cymunedol yw cyd-ddathlu.)

Rhaid cymrodeddu (dwyochredd) ynglyn â rhannu fel hyn, gan fod ewyllys da a chariad wrth galon y cwbl. Mae angen ymgynghori rhwng yr awdurdodau priodol er mwyn gweld sut y gall hyn weithio orau. (102-106)

*gwnewch ymdrech i weddïo gydag eraill*

'Dylai Catholigion ddangos parch diffuant i ddisgyblaeth litwrgïaidd a sagrafenaidd Eglwysi a Chymunedau Eglwysig eraill, a gofynnir iddynt hwythau, yn eu tro, barchu disgyblaeth Gatholig. Un nod yr ymgynghori y ceir sôn amdano uchod ddylai fod twf mewn dealltwriaeth o bob ochr o ddisgyblaethau'r naill ochr a'r llall, a hyd yn oed gytundeb ar sut i ymdopi â sefyllfa lle bo disgyblaeth un Eglwys yn codi amheuaeth neu'n gwrthdaro gyda disgyblaeth un arall.' (107)

*syniadau ymarferol*

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Yn ymarferol, beth mae paragraffau 102-107 yn eu golygu yn eich ardal chi?

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

*dulliau eraill*

Gweddi ar y cyd

Dylid annog Catholigion i weddïo gyda'u cyd Gristnogion. Mae hynny ynddo'i hun yn gam tuag at undod Cristnogol. Mae yna amryfal bethau y mae eu hangen arnom ac y gallwn weddïo amdanynt: e.e. heddwch, y teulu, gofidiau cymdeithasegol. Mae'n briodol gweddio ar y cyd mewn amser o argyfwng neu ddiolchgarwch, neu pan fyddwn ni'n coffáu pobl fu farw drosom.

*ar y Sul?*

Mae gweddïo ar y cyd yn arbennig o addas pan fom yn gweddïo dros undod Cristnogol ei hun, fel yn ystod yr Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol. Wrth gynllunio gwasanaethau undod, gall cynrychiolwyr o bob traddodiad ddod ynghyd, gan ddefnyddio'u treftadaeth cyffredin o emynau a gweddïau, ond hefyd y cyfoeth sy'n perthyn i Eglwysi unigol. Gellir defnyddio lleoliad megis eglwys un o'r traddodiadau neu ryw le addas arall. Dylid cytuno ymlaen llaw beth ddylai arweinwyr y gwasanaeth ei wisgo. (108-113)

Ymysg dulliau eraill o rannu ysbrydol y mae dyddiau o atgofiad, enciliadau, ac astudio amryfal draddodiadau ar y cyd. Gellir sefydlu cymdeithasau parhaol hefyd ar gyfer ymchwil ysbrydol dwysach; ond er bod y rhain yn werthfawr, rhaid peidio anghofio'n gwahaniaethau athrawiaethol, na'r ddysgeidiaeth Gatholig am rannu sagrafenaidd. (114)

*gwasanaethau undod*

Dathlu'r Ewcharist ar Ddydd yr Arglwydd yw sylfaen a chanolbwynt yr holl flwyddyn litwrgïaidd, dyna pam mae gofyn i Gatholigion fynychu'r Offeren ar y diwrnod hwnnw. Am hynny, gwell peidio cynnal gwasanaethau eciwmenaidd ar y Sul, gan y byddai rhaid i Gatholigion fynd i'r Offeren beth bynnag. (115)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

*angladdau*

1. Sut ydych chi'n dathlu'r Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol yn eich ardal chi?

2. Beth allan o'r pedair adran uchod allech chi ei wneud?

3. A yw paragraff 115 yn achosi anawsterau yn lleol?
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

*gweddïo dros eraill*

Os felly, sut y gellid datrys y rhain?

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Rhannu mewn addoliad ansagrafenaidd

Ystyr 'addoliad litwrgïaidd' i ni yw addoliad yn ôl llyfrau ac arferion Eglwys neu Gymuned arbennig, yn cael ei lywyddu gan weinidog neu gynrychiolydd y traddodiad hwnnw. Yn aml bydd yn well defnyddio litwrgi ansagrafenaidd rhyw draddodiad arbennig yn hytrach na rhyw wasanaeth undod wedi'i lunio'n arbennig. Anogir Catholigion i gymryd rhan yn y rhain. Mewn gwasanaethau Catholig o'r fath (e.e. Hwyrol Weddi) gellir gwadd gweinidogion eraill i gymryd rhan, a chynnig iddyn nhw'r cwrteisi litwrgïaidd sy'n briodol i'w statws, a gall gweinidogion Catholig dderbyn gwahoddiad cyffelyb i wasanaethau traddodiadau eraill. (116-119)

*parchwch y ddisgyblaeth*

Os nad yw eu gweinidog nhw ar gael, gellir cynnig angladd Catholig i Gristnogion o draddodiadau eraill, os nad yw hynny yn amlwg yn erbyn eu dymuniad. (120)

Gellir cynnig gweddïau dros Gristnogion eraill, sy'n fyw neu feirw, yn ystod litwrgi Catholig, sagrafenaidd neu beidio, (e.e. Gweddïau'r Ffyddloniaid yn ystod Offeren); ond mae'n hen draddodiad mai dim ond pobl sydd mewn cymundeb llawn â'r Eglwys Gatholig a enwir yn ystod y Weddi Ewcharistaidd. (121)

*ymwneud ag Eglwys Ddwyreiniol*

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Lluniwch weddi ffyddloniaid am eciwmeniaeth ar gyfer

Sul nesaf. Pwy fuasech chi'n gynnwys a pham? (Efallai yr hoffech lunio pwt i gylchlythyr neu fwletin y plwyf.)

*pwy all wneud beth*

Mae yna sôn fod cynulleidfaoedd lleol yn gweddïo dros anghenion ei gilydd yn rheolaidd yn ystod eu gwasanaethau ar y Sul. Ydy hyn yn digwydd yn eich ardal chi? A ellid cyflwyno'r arfer?

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Rhannu mewn addoliad litwrgïaidd sagrafenaidd –
yn enwedig yr Ewcharist

a) Rhannu gydag aelodau o Eglwysi'r Dwyrain
Mae cymundeb agos mewn materion o ffydd rhwng yr Eglwys Gatholig ac Eglwysi'r Dwyrain. Mae ganddyn nhw sagrafennau dilys: uwchben popeth, yr offeiriadaeth a'r Ewcharist. Mae hyn yn annog rhannu rhyngom – hyd yn oed yr Ewcharist – dan yr amgylchiadau priodol. Ond weithiau mae gan Eglwysi'r Dwyrain ddisgyblaeth fwy caeth y mae'n rhaid i ni ei pharchu. (122)

*egwyddorion*

Gall aelod o'r Eglwys Gatholig ofyn i offeiriad Eglwys Ddwyreiniol am sagrafen penyd, yr Ewcharist ac eneinio'r claf os byddai hynny o fudd ysbrydol dilys ac os na ellir cael gafael ar offeiriad Catholig heb drafferth mawr. Rhaid gochel rhag difrawder a chyfeiliorni. Rhaid dilyn y ddisgyblaeth Ddwyreiniol cyn belled ag y bo modd ynglŷn ag amlder, cyffesu cyn cymuno a'r Ympryd Ewcharistaidd. Os yw Eglwys Ddwyreiniol arbennig yn cyfyngu'r Cymun i'w
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

haelodau hi, ni ddylai Catholig geisio ei dderbyn. (123-4)

Gall offeiriad Catholig gyflwyno sagrafennau penyd, Ewcharist ac eneinio'r claf i Gristnogion Dwyreiniol, os byddan nhw'n gofyn am hynny o'u gwirfodd a bod eu hagwedd yn gywir. Dylid rhoi parch dyladwy i'r ddisgyblaeth Dwyreiniol, a dim awgrym o broselyteiddio. (125)

Gall Catholigion ddarllen y llithoedd mewn litwrgïau sagrafenaidd Dwyreiniol a gall Cristion Dwyreiniol wneud yr un fath mewn sagrafen Catholig. (126)

*cwestiynau ymarferol*

Gall gweinidog Catholig gymryd rhan mewn priodas yn yr Eglwysi Dwyreiniol, os caiff wahoddiad, a gall Catholig fod yn was neu forwyn briodas mewn achlysur o'r fath. Yr un modd, gall Cristion Dwyreiniol fod yn was neu'n forwyn briodas mewn priodas Gatholig. (Wrth gwrs, rhaid dilyn disgyblaethau cyffredinol y naill eglwys a'r llall mewn achosion fel hyn.) (127-8)

b) Rhannu mewn bywyd sagrafenaidd gyda Christnogion o Eglwysi a Chymunedau eraill

Mae yna ddwy egwyddor y mae'n rhaid eu cadw mewn cof, a heb eu gwahanu:

1. Mae sagrafen yn weithred gan Grist a'i Gorff, yr Eglwys. Pan fo cymuned arbennig yn dathlu sagrafen, mae hynny ar yr un pryd yn arwydd ac yn ffynhonnell undod y gymuned honno mewn ffydd, addoliad a bywyd cymunedol. Felly, er enghraifft, mae Cymundeb Ewcharistaidd wedi'i asio'n anwahanadwy gyda chymundeb 'eglwysig' (h.y. y


Gymdeithas-eglwysig).

2. Yr un pryd, mae bedydd yn dod ag aelodau traddodiadau eraill i gymundeb 'eglwysig' real (er yn anghyflawn) gyda'r Eglwys Gatholig, ac y mae bedydd, o'i hanfod, yn ddechrau proses. Nod hwnnw yw caffael cyflawnder bywyd yng Nghrist, ac yn y diwedd Cymundeb Ewcharistaidd llawn, sef y bwyd sy'n ein huno yn fwy a mwy dwfn â Christ a'i waith achubol.

Yng ngoleuni'r ddwy egwyddor hyn, gyda'i gilydd, arfer yr Eglwys Gatholig yw cyfyngu'r Cymun Bendigaid, penyd ac eneinio'r claf i'w haelodau hi ei hun. Ond, mewn achosion eithriadol, mae'r ddwy egwyddor hyn yn galluogi'r Eglwys i ganiatáu (a hyd yn oed annog) mynediad i'r sagrafennau hyn gan Gristnogion eraill mewn amgylchiadau arbennig lle mae yna angen a brys dybryd. (129)

Beth yw'r amgylchiadau hyn?

1. Perygl marwolaeth - mewn perygl o'r fath, gall gweinidogion Catholig gynnig y sagrafennau hyn i Gristnogion bedyddiedig o draddodiadau eraill, os:



- nad yw eu gweinidog nhw ddim ar gael;
- eu bod yn gofyn am hyn o'u gwirfodd;
- eu bod yn dangos ffydd Gatholig yn y sagrafen y maen nhw'n gofyn amdani;

*adeiladau*

•eu bod a'r agwedd briodol.

2. Amgylchiadau eraill o 'angen a brys dybryd' – argymhellir pob esgob esgobaethol i gyflwyno rheolau ar gyfer barnu pa mor argyfyngus yw unrhyw amgylchiadau arbennig, a gwireddu'r amodau ym mharagraff 1 uchod. [Mae esgobion gwledydd Prydain ac Iwerddon eisoes wedi gwneud hyn yn eu dogfen addysgol *One Bread One Body*, 1998, para. 95-117.]

*rhannu perchnogaeth*


I ddechrau, dylai ystyried unrhyw reolau gyflwynwyd gan Gynhadledd yr Esgobion, ac ymgynghori gydag Eglwysi a Chymunedau eraill yn ei esgobaeth ei hun. Bydd gweinidogion Catholig yn barnu pob sefyllfa unigol wedyn yn ôl y rheolau hyn, lle bônt ar gael. Fel arall, dylent farnu yn ôl rheolau'r Cyfarwyddiadur hwn. (130-1)

*ysgolion*

Os bydd Catholigion mewn angen dan yr amodau uchod, ni chaniateir iddyn nhw ofyn am y sagrafennau hyn ond gan weinidog Eglwys y mae ei sagrafennau'n ddilys yng ngolwg yr Eglwys Gatholig,neu gan rywun [h.y. fel unigolyn] y gwyddir iddo gael ei ordeinio'n ddilys. (132)

*ysbytai a chartrefi*

Dylai'r llithoedd o'r Ysgrythur mewn Ewcharist Catholig gael eu darllen gan Gatholigion, ond gall yr esgob amrywio hyn am reswm digonol. Ond dim ond offeiriad neu ddiacon Catholig all bregethu fel rhan o litwrgi Catholig oherwydd bod hynny'n gyflwyniad o ffydd a moesau Cristnogol yn ôl athrawiaethau Catholig. (133-4)



Mewn priodasau fe all Cristnogion eraill fod yn brif forwyn neu was priodas, a gall Catholigion wneud yr

un peth mewn priodasau traddodiadau eraill. (136)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~
~~~~~~~~~

Mae methu rhannu’n llawn yn yr Ewcharist yn destun gofid i bawb. Beth allwn ni ei wneud i leihau hynny?

*anawsterau*

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~
~~~~~~~~~

Rhannu adnoddau ysbrydol eraill

Fel arfer, cedwir Eglwysi Catholig ar gyfer addoliad Catholig, ond os nad oes gan Gristnogion eraill le i’w hunain, neu does ganddyn nhw ddim o’r offer litwrgïaidd, gall yr esgob ganiatáu y defnydd o’r rhai Catholig. Hefyd, fe ellir caniatáu’r defnydd o fynwentydd Catholig. (137)

*gwerthoedd*

Lle ceir perthynas eciwmenaidd dda, a bod ystyriaethau ariannol bugeiliol yn awgrymu hynny, gellir ystyried o ddifrif rhannu perchnogaeth adeilad eglwysig, neu rannu’r defnydd ohono dros gyfnod hir. Mewn achosion o’r fath, rhaid ystyried yr angen i gadw’r Sagrafen Fendigaid, o gofio diwinyddiaeth Catholig a’r angen am barch iddo, a theimladau eciwmenaidd. Bydd rhaid wrth gytundeb sut mae modd ufuddhau i’r gwahanol ddisgyblaethau, ac angen cytundeb ysgrifenedig ynglŷn â materion ariannol ac unrhyw fater arall sy’n codi o’r gyfraith sifil neu eglwysig. (138-40)

*cefnogaeth a chalonogi*

Mae’n rhaid wrth barch at ffydd a chydwybod disgyblion ac athrawon o draddodiadau eraill mewn ysgolion Catholig. Rhaid i’w clerigwyr nhw fod yn rhydd i roi gofal ysbrydol a sagrafenaidd i’w

*paratoi*

ffyddloniaid. Gyda chaniatâd yr esgob gall hyn gynnwys defnydd o gapel yr ysgol. (141)

Dylai ysbytai a chartrefi Catholig roi gwybod yn syth i'r
gweinidogion priodol am bresenoldeb unrhyw un o'u praidd nhw. Dylid cynnig pob cyfleustra ar gyfer gofal ysbrydol urddasol, gan gynnwys defnyddio'r capel. (142)

*beth am y plant?*

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Pa gyfleoedd mae'r paragraffau hyn yn awgrymu ar gyfer gweithgarwch eciwmenaidd lleol?


~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

## *C. Priodasau cymysg*


Ystyr 'priodasau cymysg' yma yw unrhyw briodas rhwng person Catholig a Christion bedyddiedig nad yw mewn cymundeb llawn â'r Eglwys Gatholig. (143)

Prif ofal yr Eglwys yw cynnal undod annileadwy priodas a'r bywyd teuluol sy'n tarddu ohono. Mae hyn yn haws pan fo'r ddau gymar yn perthyn i'r un gymuned o ffydd Gristnogol; mae priodasau cymysg yn aml yn arwain at anawsterau ynglŷn ag ymrwymiad Cristnogol a chytgord teuluol. Mewn egwyddor felly, ceisir hyrwyddo priodasau rhwng pobl o'r un traddodiad. (144)

Yr un pryd, mae'r nifer o briodasau cymysg wedi cynyddu, ac er bod ganddyn nhw broblemau, mae iddyn



nhw weddau gwerthfawr yn ogystal. Maen nhw'n gallu gwneud cyfraniad gwiw i'r mudiad eciwmenaidd. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo'r ddau gymar yn ffyddlon i'w dyletswyddau crefyddol. (145)



Mae gan yr Eglwys ac yn arbennig ei gweinidogion gyfrifoldeb arbennig i hyfforddi a chefnogi Catholigion sydd mewn priodas gymysg, i helpu nhw i fyw eu ffydd. Rhaid iddyn nhw, hefyd, ofalu am y pâr, wrth baratoi at briodi, yn seremoni'r briodas, a chydol y briodas wedyn. Byddai'n fuddiol petai esgobion yn llunio canllawiau ar gyfer y gofal bugeiliol hwn. (146)

Os yn bosib, dylid gwneud y gwaith bugeiliol hwn ar y cyd gyda gweinidog y traddodiad arall. (147)

*rhwng Catholigion a Christnogion Dwyreiniol*

Yn ystod y paratoi, dylid pwysleisio'r cyfoeth cadarnhaol sy'n gyffredin i'r deuddyn fel Cristnogion, a'u hannog i feithrin popeth all arwain at undod. Ond rhaid iddyn nhw, yr un pryd, fod yn ffyddlon i'w hymrwymiadau personol, a pheidio ceisio cuddio'r gwir wahaniaethau sydd rhyngddyn nhw. Mae'n bwysig iddyn nhw ddysgu am argyhoeddiadau crefyddol personol eu cymar, yn ogystal â rhai ei (H)Eglwys neu Gymuned. Dylent gydnabod y pwysigrwydd o weddïo gyda'i gilydd fel ffordd o hybu cytgord ysbrydol, a gwerth darllen yr Ysgrythur gyda'i gilydd. (148-9)

*anghyfreithlon ond dilys*

Rhaid dysgu'r pâr am amcanion a natur hanfodol priodas, a rhaid iddyn nhw beidio anwybyddu'r rhain. Gofynnir i'r cymar Catholig i gadarnhau ei f/bod yn barod i osgoi y perygl o gefnu ar y ffydd Gatholig, ac y gwna bopeth ellir ei wneud i sicrhau y bedyddir unrhyw blant a'u magu yn yr Eglwys Gatholig. Rhaid esbonio'r cyfrifoldebau hyn i'r cymar o'r traddodiad

*y briodas*

arall, ond does dim disgwyl unrhyw addewid ganddo/i, ac, yn wir, efallai y bydd y cymar arall yn ymdeimlo â chyfrifoldeb cyffelyb ond i'r gwrthwyneb.

Dylid eu gwadd i drafod y bedydd a'r fagwraeth Gatholig, ac os yn bosib dylid dod i benderfyniad ar y mater cyn priodi. Byddai gwrthodiad pendant gan y cymar ang-Nghatholig yn un ffactor i'w ystyried – ymysg eraill – gan yr esgob neu ei ddirprwy wrth benderfynu a geir gollyngiad i briodi ai peidio. (150)

Rhaid i'r cymar Catholig ymdrechu gyflawni'r dyletswydd o draddodi'r ffydd Gatholig i'r plant, ond gyda pharch dyledus i gydwybod y rhiant arall a gofal dros sefydlogrwydd y teulu a'r briodas. Os na lwyddir i gael y plant wedi'u bedyddio a'u magu'n Gatholigion, er pob ymdrech gan y rhiant Catholig, rhaid iddo/i ddal i geisio cyflwyno'r ffydd Gatholig mewn ffyrdd eraill, trwy gyfrannu i awyrgylch Gristnogol yn y cartref, drwy fod yn gyfarwydd â'r ffydd Gatholig ac yn barod i'w esbonio, a thrwy weddïo gyda'r teulu am undod Cristnogol. (151)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

*rhannu'r cymun?*

1. Pa gwestiynau neu bynciau yn codi o'r adran hon sydd angen eu codi wrth i bobl baratoi i briodi?
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

2. Sut allwn ni fod yn gefn i bobl mewn priodasau cymysg?

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Gwahoddwch aelod lleol o’r Gymdeithas Priodasau Rhyng-Eglwysig atoch neu sgwrsiwch a’r bobl briodol yn y plwyf.

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Er bod gwahaniaethau athrawiaethol yn atal cymundeb llawn gyda’r Eglwysi Dwyreiniol, mae’r ddau draddodiad wedi bod yn gyson yn dysgu athrawiaethau cywir, ac mae ganddyn nhw sagrafennau dilys. Felly, wrth fugeilio priodasau rhwng Catholigion a Christnogion Dwyreiniol gellir sicrhau y naill gymar a’r llall y bydd unrhyw blant, beth bynnag, yn derbyn maeth dirgeleddau sagrafenaidd Crist. Gellir cyfoethogi gweddi deuluol gan y gwahanol litwrgïau a defosiynau fydd ar gael iddyn nhw. (152)

Mae’n ddyletswydd ar Gatholigion i briodi gerbron offeiriad neu ddiacon Catholig, ynghyd â dau dyst arall. Gelwir hyn yn ‘norm canonaidd’. Os prioda Catholig mewn Eglwys Ddwyreiniol heb gael gollyngiad o’r norm canonaidd, mae’n gweithredu’n anghyfreithlon, ond bydd y briodas yn ddilys. Ond os byddai’r briodas mewn unrhyw draddodiad arall heb gael gollyngiad, ni fydd hi’n briodas ddilys, ond yn anghyfreithlon yr un pryd. (153)

# V. Cydweithredu eciwmenaidd – dialog – tystiolaeth ar y cyd

*Mae'r bennod hon yn trafod agweddau ymarferol ar weithio, siarad a rhannu gyda'n gilydd*

*gwnewch bopeth ar y cyd os caniateir*

Pan fo Cristnogion yn byw a gweddïo gyda'i gilydd, fel ym mhennod IV, maen nhw'n tystio i'r ffydd maen nhw'n ei rannu, i'w bedydd a'u cymdeithas o fywyd a rhoddion. Ond mae yna amryfal ffyrdd eraill o gydweithredu'n eciwmenaidd sy'n mynegi a hyrwyddo'r gymdeithas hon, ac yn hybu'r dystiolaeth i rym achubol yr Efengyl gerbron byd sydd â dirfawr angen Crist. Bydd y cyfraniad y gall Cristnogion ei wneud i bob maes mewn bywyd lle mae'r angen am iachawdwriaeth yn amlwg yn fwy effeithiol pan wneir hynny ar y cyd, a dangos hynny'n amlwg. Felly fe fyddant am wneud popeth ar y cyd sy'n cael ei ganiatáu gan eu ffydd.

Fe'n cyfyngir ni yn yr hyn allwn ni ei wneud gan y gwahaniaethau mewn athrawiaeth sydd rhyngom, a'r atgofion briw a hir hanes o ymraniad – ond fe all cydweithredu gynorthwyo i oresgyn y rhagfuriau hyn a datgelu'r hyn sydd eisoes yn ein huno. (161-2)

*dod at ein gilydd*

Mae ffurf a strwythur cydweithrediad eciwmenaidd yn amrywio'n helaeth o le i le, wrth gwrs, o'r byrhoedlog, y cyfarfod unwaith ac ym byth, i gynghorau a phwyllgorau parhaol. Fe drown ni at y rhain yn awr. (163-5)

## Cynghorau Eglwysi a Chynghorau Cristnogol

Mae Cynghorau Eglwysi [CYTÛN yng Nghymru, ac 'Eglwysi Ynghyd' / 'Churches Together', yng ngwledydd Prydain ac Iwerddon] yn cynnwys hynny yn benodol: Eglwysi a 'Chymunedau Eglwysig'. Mae gan Gynghorau Cristnogol aelodaeth ehangach. Pwrpas y naill fel y llall yw hwyluso dialog, gweithio a thystio ar y cyd, goresgyn camddealltwriaeth a gweddïo. Does ganddyn nhw dim awdurdod ar wahân i'r hyn a drosglwyddir iddyn nhw gan y cyrff sy'n aelodau ohonyn nhw. Gan fod y Cynghorau hyn yn fath pwysig o gydweithredu, mae ymwneud cynyddol yr Eglwys Gatholig gyda nhw i'w groesawu. (166-7)

*nid eglwysi yn eu hunain*

Mae'r penderfyniad i ymaelodi â Chyngor, a goruchwyliaeth aelodaeth a gweithgareddau'r Eglwys Gatholig ynddo, yn gyfrifoldeb i esgob neu esgobion y diriogaeth dan sylw. Tra bo esgobion yn ystyried ymaelodi, dylent fod mewn cysylltiad â'r Cyngor Pontificaidd dros Hyrwyddo Undod Cristnogol. (168)

Cyn ymaelodi mewn Cyngor, rhaid i esgobion fod yn sicr na fydd yr aelodaeth yn gwneud hunaniaeth unigryw a phenodol yr Eglwys Gatholig yn annelwig mewn unrhyw ffordd, ac y bydd yn gydnaws â dealltwriaeth yr Eglwys Gatholig ohoni'i hun. Nid yw, ac ni all, Cynghorau droi yn Eglwysi ynddynt eu hunain. Rhaid pennu ymlaen llaw y system bleidleisio, y broses o benderfynu ar bethau, y dull o wneud datganiadau cyhoeddus a'r gradd o awdurdod a roddir i'r fath ddatganiadau, ynghyd â'r system gynrychiolaeth. Rhaid trefnu hyn i gyd cyn penderfynu ar aelodaeth Catholig o'r Cyngor. (169)

*cyfrifoldeb difrifol*

Mae aelodaeth Catholig o'r Cynghorau hyn yn hollol wahanol i berthynas yr Eglwys Gatholig a Chyngor

Eglwysi'r Byd. Does gan y cyngor hwnnw dim awdurdod dros y Cynghorau hyn. (170)

Mae'r penderfyniad i ymaelodi yn golygu ymgymryd â chyfrifoldeb difrifol, a rhaid i'r Eglwys Gatholig gael cynrychiolwyr cymwys ac ymrwymedig iawn. (171)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

1. Beth yw enw eich cangen leol o CYTÛN?

2. Beth mae'n gwneud?

*rhaid bod yn agored*

3. Pwy ydy'r aelodau?

4. Faint mae'ch eglwys chi'n ymwneud ag ef?

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Dialog eciwmenaidd

Mae rhaid bod yn agored amdanoch chi'ch hun mewn dialog, ac ymddiried yn yr hyn ddyweda pobl eraill amdanyn nhw'u hunain. Mae'n fater o wrando a holi, a pharodrwydd i gael eich holi. Rhaid ichi fod yn barod i egluro'ch safbwynt a newid eich ymddygiad. Mae'n galluogi'r bobl sy'n cymryd rhan i ddarganfod y mannau lle maen nhw'n cytuno a'r rhai lle maen nhw'n gwahaniaethu. Maen nhw'n ceisio darganfod tarddiad y gwahaniaethau, a phenderfynu a ydyn nhw'n rwystrau gwirioneddol i ffydd cyffredin. Pan welir fod yna rwystrau go iawn, fe geisir eu goresgyn yng ngolau'r ffydd sydd eisoes yn gyffredin iddynt. (172)

*math o ddialog*

*cofier am hierarchaeth y gwirionedd*

Gall dialog lleol amrywio o sgwrsio tra anffurfiol a chyffredin i drafodaethau wedi'u trefnu rhwng gwahanol ddosbarthiadau o bobl (pobl broffesiynol, clerigwyr, diwinyddion, ac ati). Wedyn, fe geir dialogau ffurfiol rhwng cynrychiolwyr sydd wedi'u penodi'n arbennig gan yr Eglwysi. Cyn bod canlyniadau'r dialogau hyn yn effeithio ar yr Eglwys yn swyddogol, rhaid cael cymeradwyaeth yr awdurdod sydd wedi penodi'r cynrychiolwyr. Rhaid i Gatholigion sy'n cymryd rhan fod yn dra cyfarwydd â'u ffydd, a gofalu cynrychioli'r Eglwys yn ffyddlon. (173-5)
Fel y dwed Fatican II (U R11), ni ddylai'r dull a'r drefn o fynegi gwirionedd Catholig fod yn rhwystr i gytundeb, er, wrth gwrs, mae'n rhaid cyflwyno'r safbwynt Catholig yn llawn ac eglur. Ond dylid defnyddio geiriau a ffyrdd y gall ein partneriaid mewn dialog eu deall. Rhaid i Gatholigion mewn dialog gofio'r 'hierarchaeth o wirionedd': er bod pob gwirionedd datguddiedig yn hawlio'r un derbyniad mewn ffydd, mae rhai gwirioneddau'n nes at sylfeini'r genadwri Gristnogol nag eraill. (176)

*trosglwyddo a derbyn canlyniadau i ddialog*

Bydd gan adroddiad comisiwn dialog bwysau hanfodol oherwydd cymwysterau ei awduron, ond ni fydd yn rhwymo'r Eglwys Gatholig nes cael ei gymeradwyo gan awdurdodau'r Eglwys. (177-8)

Rhaid i aelodau Pobl Dduw, ar eu gwahanol lefelau, ymwneud â phroses arfarnu unrhyw Adroddiad ar y cyd, ac felly ymarfer y sensus fidei (yr afael sydd ganddyn nhw, gan Dduw, ar y ffydd). Felly rhaid gwneud pob ymdrech i gyflwyno canlyniadau'r dialog i sylw holl aelodau'r Eglwys,ynghyd ag unrhyw esboniadau angenrheidiol. Gobeithir y gwneir yr un

peth gan bob Eglwys neu Gymuned – ac yn wir traddodiadau eraill hefyd - fu’n rhan o’r trafod. Nid yn unig athrawiaeth y ffydd, ond rhaid i fywyd a gweddi y ffydd, yn ogystal, fynd yn rhan o’r broses o ‘dderbyn’, lle mae’r Eglwys gyfan yn cymhathu canlyniadau’r dialog wrth wrando, profi, barnu a byw. (179-180)

Os bydd Datganiad ar y cyd yn mynegi’r ffydd mewn ffordd newydd (neu newydd ei ddarganfod eto), gall gyfoethogi’r Eglwys. Fel y dysgwyd gan Fatican II (UR6), un peth yw’r gwirionedd datguddiedig, ond peth arall yw’r ffordd y cyflwynwyd hwnnw. Mae’n beth defnyddiol, er hynny, i’r iaith newydd ymwrthod ag amwysedd, yn enwedig wrth geisio cytundeb ar bwyntiau a fu’n ddadleuol yn draddodiadol. (181)

*yr Ysgrythur - rhwymyn sylfaenol*

Mae gan gyfadrannau diwinyddol ran bwysig i’w chwarae yn y broses hon o dderbyn – a chan awdurdod addysgu’r Eglwys fydd y rheidrwydd i farnu yn y diwedd. (182)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

1. Beth sy’n hybu dialog da?

2. Beth osodech chi fel egwyddorion ar gyfer dialog?

*astudio ar y cyd - a chael hyd i bethau newydd*

3. Beth wyddoch chi am y Datganiadau ar y cyd sydd wedi’u cyhoeddi’n barod (e.e. y rheini gyda’r Anglicaniaid a’r Methodistiaid)?

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Gwaith Beiblaidd ar y cyd

Mae parchu'r Ysgrythur yn rhwymyn sylfaenol rhwng Cristnogion. Os bydd Cristnogion yn darllen Gair Duw, ac yn gwneud hynny gyda'i gilydd, fe fydd yn cryfhau'r rhwymyn hwn o undod a'u galluogi nhw i fod yn fwy agored i weithgarwch unol Duw. Dylid gwneud popeth posib i gefnogi'r astudio Beiblaidd hwn ar y cyd. Byddai gweithio gyda'n gilydd i baratoi argraffiadau addas o'r Beibl yn gymorth mawr yn hyn o beth – ac yn dystiolaeth ynddo'i hun. (183)

*cytuno ar adnoddau litwrgïaidd cyffredin*

*cydweithredu mewn cateceiddio pan yn bosib*

Dylai Catholigion rannu yn yr astudio yma o'r Ysgrythur, ar bob lefel o grwpiau yn y plwyf i ysgolheigion Beiblaidd proffesiynol. Gall y gweithgarwch hwn ar y cyd ddadlennu sut y gall ein gwahanol safbwyntiau athrawiaethol, a'n ffyrdd gwahanol o edrych ar y Beibl ei hun, arwain at ddehongliadau gwahanol o'r testun. Yr un pryd, fe fydd Catholigion yn sicr o ddysgu oddi wrth brofiad a thraddodiadau'r gwahanol Eglwysi. Fe welant rai darnau mewn goleuni newydd, a darganfod Gair Duw o'r newydd. Fe gânt brofi gyda llawenydd grym unol Gair Duw, a chael eu calonogi, ynghyd â'u cyd-Gristnogion, i ddarganfod ei ystyr mewn perthynas â'n byd ni heddiw. (184-6)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Fe ofynnwyd ichi drefnu i astudio'r Beibl ar 'dystiolaeth gyffredin'. Pa destun fyddech chi'n ei ddewis a sut fyddech chi'n trefnu'r sesiwn?

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

*egwyddorion cydweithredu ar lefel addysg uwch*

Testunau litwrgïaidd cyffredin

Dylai Cristnogion yn yr un byd diwylliannol gytuno ar fersiwn
cyffredin o, o leiaf, y prif weddïau, salmau a darlleniadau ysgrythurol. Byddai'n beth dymunol cael casgliad cyffredin o emynau, a chyd-weithrediad wrth gyfansoddi a chasglu cerddoriaeth litwrgïaidd. (187)

Cydweithredu mewn cateceiddio

Does dim dwywaith na all cydweithredu mewn cateceiddio gyfoethogi bywyd yr Eglwys Gatholig ei hun, ac un y traddodiadau eraill. Mae'n werthfawr hefyd fel dull o dystio i'r Efengyl gyda'n gilydd. Er hynny, mae yna gyfyngderau ar gydweithredu yn y maes yma: mae yna wahaniaethau rhyngom, ac weithiau mae'r rheini'n rhai dwfn. Beth bynnag, mae cateceiddio'n golygu mwy na dim ond dysgu athrawiaethau; mae'n ymwneud â chyflwyno rhywun i mewn i'r bywyd Cristnogol yn ei gyfanrwydd, gan rannu'n llawn yn sagrafennau'r Eglwys. (188)

Cydweithredu mewn sefydliadau astudiaethau uwch

Mae cydweithredu mewn astudiaethau diwinyddol a disgyblaethau perthnasol yn cyfrannu at ymchwil, yn cyfoethogi addysg ddiwinyddol, ac yn cryfhau ffurfiant eciwmenaidd clerigwyr a gweithwyr bugeiliol eraill. Yn ogystal, mae'n galluogi Cristnogion i wynebu gyda'i gilydd heriadau deallusol y dydd. (191)

Yng nghamau cyntaf addysg ddiwinyddol, mae'r

myfyrwyr yn dal i dderbyn eu ffurfiant sylfaenol yn ffydd a thraddodiad eu heglwys eu hunain. Ar gyfer Catholigion, dylai athrawon y cyrsiau athrawiaethol lefel cyntaf, gan gynnwys y cwrs cyntaf ar eciwmeniaeth (gweler paragraffau 79-80) fod yn Gatholigion. Er hynny, gellir cydweithredu'n eciwmenaidd mewn ffyrdd eraill, hyd yn oed ar y lefel yma. Er enghraifft, gall myfyrwyr Catholig fynychu cyrsiau yng ngholegau diwinyddol Eglwysi a Chymunedau eraill, gan ystyried defnyddioldeb y cwrs dan sylw iddyn nhw, ansawdd ac agwedd yr athro, ac aeddfedrwydd y myfyrwyr. (192-4)

*cydweithredu mewn sefyllfaoedd arbenning-ysbytai, ac ati*

Wedi'r hyfforddi sylfaenol, ar yr ail a'r drydedd lefel, gellir gwadd darlithwyr o draddodiadau eraill i roi cyrsiau ar safbwyntiau athrawiaethol yr Eglwysi a'r Cymunedau y maen nhw'n eu cynrychioli. Mae'n bosib y gwahoddan nhw ddarlithwyr Catholig i wneud yr un peth. Bydd llawer o hyn yn dibynnu ar aeddfedrwydd perthnasau eciwmenaidd yn y wlad dan sylw. (195)

*cydweithredu mewn gwaith cenhadol*

Ar lefelau tu hwnt i'r rhain, (e.e. darlithwyr diwinyddol, ac ati) mae'n bosib cydweithredu'n eciwmenaidd dros faes ehangach o lawer. Yn y fan hyn, rydym yn sôn am arbenigwyr diwinyddol yn rhannu eu hymchwil, rhannu llyfrgelloedd, adeiladau ac adnoddau eraill. Mewn rhai gwledydd, mae yna sefydliadau Catholig sy'n arbenigo mewn diwinyddiaeth ac arferion eciwmenaidd – a gwell fyth, mae rhai yn gallu cydweithredu gyda sefydliadau cyffelyb mewn traddodiadau eraill, a chael aelodau o draddodiadau eraill ar eu staff. Mewn mannau eraill, mae yna sefydliadau a redir mewn modd eciwmenaidd ar gyfer pwrpasau penodol, fel perthynas gyda chyrff ffydd gwahanol, neu'r Ysgrythur, neu yn wir holl faes

*peidier ag estyn ein rhaniadau i lefydd newydd*

eciwmeniaeth. (196-202)

## Cydweithredu bugeiliol mewn sefyllfaoedd arbennig

*cenhadu gyda'n gilydd gartref*

Gall cydweithredu eciwmenaidd fod yn dra effeithiol mewn gofalu bugeiliol mewn ysbytai, carchardai, y lluoedd arfog, prifysgolion, diwydiant a holl fyd y cyfryngau. Rhaid i Gatholigion sy'n gweithio mewn caplandai eciwmenaidd o'r fath gydgordio gyda strwythurau bugeiliol eu heglwys leol, a pharchu normau eciwmenaidd yr Eglwys Gatholig, yn enwedig ynglŷn â'r sagrafennau ac addoliad. (204)


## Cydweithredu mewn gwaith cenhadol

Mae pob cydweithredu eciwmenaidd yn dystiolaeth genhadol, o'i hanfod, ond fe allwn ni hefyd dystio'n eciwmenaidd yn y gwaith o efengylu ei hun. Gallwn gydweithredu mewn cenhadu oherwydd ein bedydd cyffredin a'r dreftadaeth o ffydd rydym yn ei rannu. Byddai Catholigion am i bawb a alwyd i'r ffydd Gristnogol ymuno gyda nhw yn y cyflawnder o gymundeb maen nhw'n credu sy'n bodoli yn yr Eglwys Gatholig, ond eto rhaid inni orfoleddu at waith gras Duw pan lwydda Eglwysi a Chymunedau eraill dynnu pobl at y ffydd a bedydd. (205-6)

*dialog gyda chrefyddau eraill*

Cyn belled â bod gwaith cenhadol yr Eglwysi a Chymunedau eraill heb fod yn sectyddol nag yn wrth-Babyddol, gall Catholigion ymuno i gefnogi gwaith cenhadol y traddodiadau eraill gyda'i gilydd. Yn achos cenhadu tu allan i Ewrop, rhaid ceisio i'r eithaf beidio trawsblannu i'r ardaloedd newydd yr elfennau dynol a diwylliannol oedd yn rhan o'n rhaniadau Ewropeaidd gwreiddiol.Pan fydd rhaid esbonio y pwyntiau o ffydd a moesoldeb lle'r ydyn ni'n gwahanu, rhaid gwneud

hynny gyda pharch a chariad o bob ochr. Dylem feithrin a maethu rhai sydd newydd ymuno â’r ffydd mewn ysbryd eciwmenaidd, ond gan osgoi difrawder a dryswch. (207)



Yn bendifaddau, mae’n rhaid cydweithredu wrth genhadu i bobl ôl-Gristnogol ein byd secwlareiddiedig ni. Gall ein tystiolaeth gyffredin i wirioneddau canolog yr Efengyl fod yn wahoddiad grymus i bobl gymryd diddordeb o’r newydd mewn Cristnogaeth. Dylem fod wrthi gyda'n gilydd yn astudio ffenomenau megis anffyddiaeth, materoliaeth a secwlareiddiwch, a sut i wneud yr Efengyl yn berthnasol i’n byd aml-ddiwylliannol ni. (208-209)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

*ar y cyd dros gyfiawnder a heddwch*

1. Os ydym am ymroi i dystiolaeth unedig, beth yw’r gwirioneddau canolog yn yr Efengyl yr hoffem eu cyhoeddi?

2. A oes gennych brofiad o dystio i’r ffydd Gristnogol gydag aelodau o draddodiadau Cristnogol eraill? Os oes, beth oeddech chi’n hoffi ynglŷn â’r profiad? Os na, beth ellid ei wneud yn eich ardal chi?

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

## Cydweithrediad mewn dialog gyda chrefyddau eraill

Mae cysylltiadau gyda’n cyd-Gristnogion gyda’r amcan o gael undod yn dra gwahanol i gynnal dialog gyda chrefyddau eraill. [Mae’r gair eciwmenaidd yn perthyn i’r ymchwil am undod rhwng Cristnogion; defnyddir y termau dialog ‘rhyng-

grefyddol' neu 'rhyng-ffydd' am yr ymchwil am ddealltwriaeth agosach rhwng Cristnogaeth a chrefyddau eraill byd eang.] Ac eto, mae ein cysylltiadau gyda'r crefyddau eraill hyn yn dylanwadu, ac yn cael ei ddylanwadu, gan ein perthnasau eciwmenaidd. Mae dialog gyda chrefyddau eraill yn rhywbeth y dylen ni, Gristnogion, fod yn ei wneud ar y cyd. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos ein perthynas gydag Iddewiaeth, lle gallwn ni i gyd frwydro'n erbyn gwrth-Semitiaeth a ffanatigiaeth. Gall Cristnogion i gyd gydweithredu gyda chrefyddau eraill i hyrwyddo, am resymau crefyddol, fywyd teuluol, parch at leiafrifoedd, heddwch a chyfiawnder. (210)

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Yng ngoleuni'r paragraff hwn beth ddylech chi fod yn ei wneud yn eich ardal chi?

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Cydweithredu mewn bywyd cymdeithasol a diwylliannol

Mae angen i Gristnogion gydweithredu i hyrwyddo urddas y bod dynol, bendith heddwch ac ysbryd Cristnogol mewn gwyddoniaeth a'r celfyddydau. Rhaid iddyn nhw gydweithredu yn y frwydr yn erbyn newyn, anllythrennedd a thlodi, a dosbarthiad anghyfiawn golud. Ond rhaid i hyn i gyd-fynd ochr yn ochr gyda'r ffurfiau eraill o gydweithredu a nodwyd uchod, yn enwedig gweddi. Oni bai am hynny, mae'r ymdrechion

namyn diddordeb adrannol ac ideoleg, ac yn rhwystr i undod. (211-212) Dyma ychydig o enghreifftiau o gydweithredu. Mae yna lawer mwy: (213)

a) Astudiaeth cyffredin o faterion cymdeithasol a moesol

Gellir sefydlu grwpiau i dystio i werthoedd Cristnogol a dynol sylfaenol – h.y. 'Dyneiddiaeth Cristnogol'. Gellid astudio, e.e. ystyr gwaith dynol, gwerth bywyd, rhyddid crefyddol, a'r grymusterau sy'n bygwth pethau felly, fel tlodi, hiliaeth, prynwriaeth, terfysgaeth. Mae gan ddysgeidiaeth cymdeithasol Catholig gyfraniad gwerthfawr i'w wneud yma. (214)

b) Cydweithredu ym mater anghenion, datblygiad a stiwardiaeth dyn o'r greadigaeth

Ymateb i angen y mae datblygiad, ond rhaid iddo gyd-fynd â stiwardiaeth dda. Rhaid i Gatholigion wneud eu rhan yn astudio ac amddiffyn cyfanrwydd ac uniondeb y greadigaeth rhag grymoedd sy'n ei bygwth, fel diwydiannu dilyffethair. Dylid ymateb i'r her o ddatblygiad yn eciwmenaidd ar bob lefel, megis hyrwyddo urddas merched, heddwch, a chymdeithas fwy cyfiawn. Mewn argyfyngau globaidd, mae'r Eglwys Gatholig yn cefnogi rhannu adnoddau a chydweithredu gyda'r holl asiantaethau perthnasol, Cristnogol ac eraill. (215)

c) Cydweithredu ym maes meddygaeth

Mewn rhannau tlawd y byd, mae'n holl bwysig cydweithredu'n eciwmenaidd i gyflenwi gofal iechyd. Wedyn, mae yna faes etheg meddygol – fel sialens a chyfle i weithgarwch eciwmenaidd. Mae'n arbennig o bwysig pennu ac adnabod gwerthoedd dynol a Christnogol yma, pan fo ymchwil yn datblygu mor

# Darllen pellach

*Dyma rai awgrymiadau ar gyfer darllen ac astudio pellach, a luniwyd gan y Pwyllgor dros Undod Cristnogol*

## Dogfennau'r Eglwys

Mae rhai o ddogfennau Ail Gyngor y Fatican o ddiddordeb arbennig, yn enwedig Cyfansoddiad Dogmatig yr Eglwys, Lumen Gentium, a'r Datganiad ar Eciwmeniaeth, Unitatis Redintegratio. Ceir y rhain yn Austin Flannery (gol.) Vatican Council II cyfrol 1 (Dominican Publications, 1996).

Sylfaenwyd y llyfryn hwn ar y Directory for the Application of the Principle and Norms of Ecumenism sy'n dal i fod y testun diffiniol ar gyfer astudiaeth pellach. Fe'i cyhoeddir gan Gymdeithas y Gwirionedd Catholig.(CTS)

I unrhyw un sy'n ymwneud ag eciwmeniaeth mae'n rhaid astudio llythyr y Pab Ioan Paul II yn 1995, Ut Unum Sint.

Trafodwyd y cwestiwn o rannu sagrafennol, yn enwedig yr Ewcharist, yn nogfen dysgeidiol esgobion gwledydd Prydain ac Iwerddon, One Bread  One Body. (CTS)

## Datganiadau dialog

Mae'r broses o gynnal dialog – dwyochrog ac amlochrog – wedi cynhyrchu nifer o ddatganiadau ar y cyd ac adroddiadau o bob math. Dyma rai casgliadau:

H. Meyer & L. Vischer (gol.) Growth in Agreement: Reports and Agreed Statements of Ecumenical

Conversations on a World Level. (Paulist Press, 1984).

J Gross, Growth in Agreement II: Reports and Agreed Statements of Ecumenical Conversations on a World Level 1982-1998 (Eerdmans 2000).
W G Rusch & J Gross, Deepening Communion: International Ecumenical Documents with Roman Catholic Participation (Paulist Press 1998)

Mae yna nifer o ddatganiadau gan Eglwysi a Chymunedau crefyddol Cymreig fu’n ceisio hybu eciwmeniaeth.

Mae’r Eglwys Gatholig yng Nghymru yn aelod o CYTÛN, ac wedi rhannu’n llawn yn y broses o gyfieithu’r Beibl cyffredin a ddefnyddir gennym oll erbyn hyn.

### Y Rhyngrwyd

Un ffordd ddefnyddiol i ddysgu mwy am enwadau eraill yw canfod eu gwefannau – mae gwefan gan lawer o enwadau, a’r ffordd orau i ddod o hyd iddyn nhw yw trwy ddefnyddio chwilotwr.

Am adnoddau eciwmenaidd, gan gynnwys cysylltiadau â nifer o ddogfennau, mae gwefan ‘Centro Pro Unione’ yn hynod werthfawr.Gellir dod o hyd iddo ar www.prounione.urbe.it
Gwefan CYTÛN yw…www.cytun.org.uk